Estyn





# Ieithoedd Rhyngwladol mewn Ysgolion yng Nghymru
# Mae Ieithoedd yn Bwysig – Pwyntiau Trafod

Gorffennaf 2025

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig a gynhelir
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol
- gwasanaethau gwaith ieuenctid
- addysg gychwynnol athrawon
- Cymraeg i oedolion
- prentisiaethau
- dysgu yn y sector cyfiawnder

**Mae Estyn hefyd:**

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

# Cynnwys                                                    Tudalen


**Crynodeb gweithredol** .......... 1

**Cyflwyniad** .......... 3

**Cefndir** .......... 5

Canfyddiadau allweddol o adroddiad Estyn 2016 .......... 5

Datblygiad polisi .......... 6

Diwygio'r cwricwlwm .......... 6

Cyfranogiad disgyblion .......... 7

**Argymhellion** .......... 9

**Ieithoedd rhyngwladol yn y sector cynradd** .......... 10

Cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn y sector cynradd .......... 10

Cynllunio'r Cwricwlwm .......... 13

Dysgu ac addysgu ieithoedd rhyngwladol yn y sector cynradd .......... 15

Lluosieithrwydd .......... 16

Datblygu medrau llafaredd disgyblion .......... 17

Datblygu medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion .......... 18

Datblygu hyder a medrau dysgu'n annibynnol disgyblion .......... 19

**Ieithoedd rhyngwladol yn y sector uwchradd** .......... 22

Cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn y sector uwchradd .......... 22

Dysgu ac addysgu ieithoedd rhyngwladol yn y sector uwchradd .......... 27

**Hyrwyddo a deall pwysigrwydd dysgu ieithoedd** .......... 33

Agweddau tuag at ddysgu ieithoedd .......... 33

Codi proffil ieithoedd rhyngwladol .......... 37

Arweiniad a chymorth .......... 39

**Arwain a Gwella Ieithoedd Rhyngwladol** .......... 41

Arwain a gwella ieithoedd rhyngwladol yn y sector cynradd .......... 41

Arwain a gwella i gefnogi pontio .......... 44

Arwain a gwella ieithoedd rhyngwladol yn y sector uwchradd .......... 49

Cymorth a heriau yn y system ehangach .......... 53

**Dulliau a sail y dystiolaeth** .......... 56
**Geirfa** .......... 58
Niferoedd – symiau a chyfrannau .......... 59
**Cyfeiriadau** .......... 59

# Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad thematig hwn yn archwilio addysgu a dysgu ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed yng Nghymru. Mae'n gwerthuso'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu ieithoedd rhyngwladol o fewn Cwricwlwm i Gymru. Mae'n ystyried ansawdd yr addysgu a'i effaith ar ddysgu, a sut mae arweinwyr yn dylanwadu ar ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd rhyngwladol yn eu hysgolion. Mae'r adolygiad hefyd yn ystyried sut mae ysgolion yn hyrwyddo dysgu ieithoedd, agweddau disgyblion tuag at ieithoedd rhyngwladol, a'r heriau sy'n parhau o ran annog disgyblion i astudio ieithoedd rhyngwladol ar lefel Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU) a thu hwnt.

Mae'r adroddiad yn amlygu enghreifftiau o'r modd y mae ysgolion cynradd wedi datblygu ieithoedd rhyngwladol yn llwyddiannus yn y cwricwlwm. Ceir enghreifftiau o addysgu a dysgu o ansawdd da yn yr ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed yr ymwelom â nhw. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae cynllunio'r cwricwlwm ac ansawdd yr addysgu yn parhau i fod yn anghyson. O ganlyniad, mae'r profiadau a'r cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion mewn ieithoedd rhyngwladol yn rhy amrywiol. Mae trefniadau pontio rhwng y sector cynradd a'r sector uwchradd yn aml yn wan, a'r nifer sy'n astudio ieithoedd rhyngwladol mewn TGAU a Safon Uwch yn isel. O ystyried y materion hyn, mae dyfodol addysg ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru yn parhau i fod yn heriol.

Mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso pedwar maes allweddol, sef:

- **Ieithoedd rhyngwladol yn y sector cynradd:** Ers i ieithoedd rhyngwladol gael eu hintegreiddio yng Nghwricwlwm i Gymru yn y sector cynradd ym mis Medi 2022, roedd llawer o'r ysgolion cynradd a'r ysgolion pob oed yr ymwelom â nhw wedi gwneud cynnydd cadarnhaol yn ymgorffori dysgu ieithoedd rhyngwladol. Roedd y rhan fwyaf o'r ysgolion yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu medrau gwrando a siarad disgyblion ac ehangu dealltwriaeth ddiwylliannol disgyblion. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae datblygu'r cwricwlwm yn parhau i fod yn anghyson. Roedd ychydig o ysgolion yn cael trafferth oherwydd diffyg hyder staff, eu hamgyffrediadau o amser cwricwlwm cyfyngedig a chyfleoedd dysgu proffesiynol annigonol. Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, roedd dysgu ieithoedd yn cael ei ymgorffori ar draws y cwricwlwm. Yn yr ysgolion hyn, roedd disgyblion yn cael eu hamlygu i ieithoedd o oedran cynnar, gan feithrin ethos amlieithog.

- **Ieithoedd rhyngwladol yn y sector uwchradd:** Er bod y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yn ein sampl yn darparu cyfleoedd addas ar gyfer dysgu ieithoedd rhyngwladol ym Mlynyddoedd 7-9, mae'r nifer sy'n astudio ieithoedd rhyngwladol yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16 yn parhau i fod yn isel. Roedd cyfyngiadau o ran amser cwricwlwm, yr amgyffrediad fod ieithoedd yn anodd a phwysau'r broses opsiynau, yn cyfrannu at y gostyngiad. Pan roedd darpariaeth ieithoedd yn gryf, roedd athrawon yn defnyddio adnoddau dilys a chreadigol, technoleg ddefnyddiol, a strategaethau addysgu hynod ddifyr i ddatblygu

gwybodaeth a medrau disgyblion. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, roedd gorddibynnu ar gymorth athrawon yn atal disgyblion rhag datblygu'n dysgwyr annibynnol ieithoedd. Roedd ymgysylltiad disgyblion yn gryfach mewn ysgolion sydd ag addysgu effeithiol a chwricwlwm cyfoethog, yn enwedig mewn TGAU a Lefelau Uwch TAG (Safon Uwch).

- **Agweddau ac ymgysylltiad disgyblion:** Roedd llawer o ddisgyblion yn yr ysgolion yr ymwelom â nhw yn mwynhau dysgu ieithoedd rhyngwladol ac yn cydnabod y manteision ar gyfer teithio, cyfathrebu a chyflogaeth. Fodd bynnag, wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, roedd eu brwdfrydedd yn aml yn dirywio oherwydd diffyg perthnasedd canfyddedig dysgu ieithoedd a hyder yn eu gallu i lwyddo. Roedd rhai disgyblion yn credu bod dysgu Cymraeg yn ddigonol, tra bod disgyblion eraill yn ystyried bod dysgu ieithoedd yn heriol o gymharu â phynciau eraill y cwricwlwm. Yn gyffredinol, roedd rhieni a gofalwyr a ymatebodd i'n harolwg yn gwerthfawrogi dysgu ieithoedd, ond nododd ein harolwg fod angen cyfathrebu'n well â rhieni a gofalwyr am ei fanteision hirdymor.

- **Arweinyddiaeth a chymorth ar gyfer ieithoedd rhyngwladol:** Roedd yn glir o'n tystiolaeth fod gan arweinyddiaeth gref rôl hanfodol mewn cynnal darpariaeth ieithoedd rhyngwladol. Mewn ysgolion lle roedd arweinwyr yn blaenoriaethu dysgu ieithoedd, roedd disgyblion yn elwa'n well ar addysgu o ansawdd uchel, llwybrau dilyniant clir, a chyfleoedd cyfoethogi. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion, nid oedd uwch arweinwyr yn ystyried bod ieithoedd rhyngwladol yn flaenoriaeth strategol, ac roedd hyn yn aml yn arwain at ddarpariaeth anghyson neu wannach. Roedd cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn aml yn wael, gan effeithio ar ba mor dda yr oedd disgyblion yn gwneud cynnydd o'r sector cynradd i'r sector uwchradd. Dywedodd yr ysgolion hynny a oedd yn ymgysylltu â gwasanaethau gwella ysgolion a sefydliadau allanol wrthym eu bod yn gwerthfawrogi eu cefnogaeth, ond bod mynediad at ddysgu proffesiynol ac adnoddau yn amrywio'n eang ledled Cymru. Mae recriwtio athrawon ar gyfer ieithoedd rhyngwladol yn parhau i fod yn her sylweddol, ac mae niferoedd gostyngol o athrawon dan hyfforddiant yn dechrau yn y proffesiwn.

- **Rôl cymorth y system ehangach:** Er bod rhaglenni fel Dyfodol Byd-eang, a chymorth gan wasanaethau gwella ysgolion lleol a rhanbarthol, wedi cael dylanwad cadarnhaol ar ddarpariaeth ieithyddol, roedd arweinwyr ysgolion yn pryderu am gynaliadwyedd hirdymor. Mae colegau addysg bellach yn cynnig llwybrau ieithoedd rhyngwladol cyfyngedig, ac mae darpariaeth ieithyddol o fewn rhaglenni galwedigaethol yn rhy amrywiol. Mae darparwyr addysg gychwynnol athrawon yn wynebu anawsterau recriwtio, gyda niferoedd isel o athrawon dan hyfforddiant ieithoedd rhyngwladol.

Mae'r adroddiad hwn yn gwneud argymhellion ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion, a Llywodraeth Cymru. Mae'r argymhellion hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar wella addysgu a dysgu, datblygu trefniadau cwricwlwm cryfach mewn cyfnodau pontio i sicrhau cynnydd a pharhad yn nysgu disgyblion, a chefnogi ysgolion i gynnal a gwella darpariaeth ar gyfer cyrsiau ieithoedd rhyngwladol TGAU a Safon Uwch.

# Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn i ymateb i gais gan Lywodraeth Cymru, fel y nodwyd yng nghylch gwaith blynyddol Estyn ar gyfer 2025-2026. Mae'n canolbwyntio ar addysgu a dysgu ieithoedd rhyngwladol yn y sector cynradd a'r sector uwchradd yng Nghymru. Nod yr adroddiad yw rhoi mewnwelediad i'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella o ran sut mae ysgolion yn cynllunio, addysgu a hyrwyddo pwysigrwydd ieithoedd rhyngwladol. Mae'n ystyried agweddau disgyblion tuag at ddysgu a'r cynnydd a wnânt. Mae hefyd yn amlygu enghreifftiau o arfer effeithiol yn yr ysgolion yr ymwelom â nhw ac yn darparu cymorth ar gyfer athrawon ac arweinwyr i werthuso darpariaeth eu hysgolion ar gyfer ieithoedd rhyngwladol yn rhan o Gwricwlwm i Gymru. Mae'r adolygiad yn archwilio pedwar maes allweddol, sef:

- **Ieithoedd rhyngwladol yn y sector cynradd:** y gwahanol ffyrdd y mae ysgolion cynradd yn cynllunio a chyflwyno ieithoedd rhyngwladol, a sut mae addysgu a dysgu ieithoedd rhyngwladol yn datblygu ar draws y sector cynradd.
- **Ieithoedd rhyngwladol yn y sector uwchradd:** sut mae athrawon ac arweinwyr yn y sector uwchradd yn trefnu eu cwricwlwm ar gyfer ieithoedd rhyngwladol ac yn sicrhau bod addysgu yn adeiladu ar ddysgu disgyblion yn y sector cynradd, ac ansawdd yr addysgu a'r dysgu mewn ystafelloedd dosbarth ieithoedd rhyngwladol.
- **Hyrwyddo a deall pwysigrwydd dysgu ieithoedd:** archwilio agweddau disgyblion at ddysgu ieithoedd rhyngwladol, a sut mae ysgolion a sefydliadau eraill yn hyrwyddo pwysigrwydd dysgu iaith.
- **Arwain a gwella ieithoedd rhyngwladol:** sut mae arweinwyr yn y sector cynradd a'r sector uwchradd yn cefnogi ac yn gwella darpariaeth ar gyfer ieithoedd rhyngwladol, gan gynnwys ansawdd yr addysgu, a sut mae partneriaid yn cyfrannu at ei ddatblygiad. Sut mae arweinwyr ar draws y ddau sector yn cefnogi pontio.

Llywiwyd yr adroddiad hwn trwy amrywiaeth o weithgareddau casglu tystiolaeth, gan gynnwys:

- **arolygon cenedlaethol:** Cynhaliom dri arolwg cenedlaethol – un ar gyfer penaethiaid cynradd, un ar gyfer athrawon ac arweinwyr uwchradd, ac arolwg ar gyfer rhieni a gofalwyr.
- **ymweliadau ag ysgolion:** Ymwelom ag 13 ysgol gynradd, 14 ysgol uwchradd a 3 ysgol bob oed. Yn ystod ein hymweliadau, buom yn cyfweld ag arweinwyr, athrawon a disgyblion, ac yn arsylwi addysgu ieithoedd rhyngwladol. Dewiswyd ychydig o ysgolion ar sail gwybodaeth am eu cwricwlwm ieithoedd.
- **cyfarfodydd â rhanddeiliaid eraill:** Cyfarfuom ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, colegau addysg bellach (AB), darparwyr addysg gychwynnol athrawon (AGA) a sefydliadau eraill sy'n cefnogi darpariaeth ar gyfer ieithoedd rhyngwladol.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am sail y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn yn yr adran fethodoleg yn yr atodiadau. Mae'r adroddiad hwn wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, gwasanaethau gwella ysgolion, athrawon ac arweinwyr mewn ysgolion a sefydliadau eraill sy'n cefnogi dysgu ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru.

# Cefndir

Amlygodd adroddiad Estyn ar Ieithoedd Tramor Modern yng Nghymru (Gorffennaf 2016) fod heriau a chyfleoedd sylweddol ar gyfer ieithoedd rhyngwladol. Nododd yr adroddiad fod gostyngiad cyson yn nifer y dysgwyr sy'n astudio ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16, er gwaethaf ymdrechion i wella ansawdd yr addysgu ac ymgysylltiad disgyblion. Archwiliodd yr adroddiad dueddiadau yng nghyrhaeddiad disgyblion, safonau addysgu, a chynllunio'r cwricwlwm, gan fynd i'r afael â phryderon hefyd ynghylch argaeledd athrawon iaith. Er ei fod yn glir o'r adroddiad fod rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud, roedd materion hirsefydlog yn parhau, gan gynnwys amser cwricwlwm cyfyngedig, ansawdd addysgu anghyson, a diffyg cydweithio a chefnogaeth ar gyfer ieithoedd rhyngwladol.

## Canfyddiadau allweddol o adroddiad Estyn 2016

- **Dirywiad mewn Cyfranogiad:** Dewisodd nifer ostyngol o ddisgyblion astudio ieithoedd tramor modern mewn TGAU a Safon Uwch, ac nid oes cynrychiolaeth ddigonol o fechgyn, yn arbennig.
- **Amrywioldeb yn Ansawdd yr Addysgu:** Er bod rhai ysgolion wedi dangos arferion addysgu effeithiol, roedd ysgolion eraill yn cael trafferth â dulliau wedi dyddio a gormod o ddibyniaeth ar baratoi ysgrifenedig ar gyfer tasgau llafar.
- **Datblygiad Rhuglder Cyfyngedig:** Nid oedd llawer o ddysgwyr yn hyderus wrth siarad, ac roeddent yn aml yn dysgu paragraffau ysgrifenedig ar eu cof yn hytrach na datblygu medrau cyfathrebu digymell.
- **Cyfyngiadau'r Cwricwlwm:** Roedd diffyg amser cwricwlwm a dewisiadau cyfyngedig o ran opsiynau yn aml yn cyfyngu ar gyfleoedd i astudio ieithoedd tramor modern, gan arwain at gyfraddau cyfranogiad isel yng nghyfnod allweddol 4.
- **Amgyffredion Rhieni a Myfyrwyr:** Roedd llawer o rieni'n gwerthfawrogi dysgu iaith ar gyfer rhagolygon gyrfa, ond yn aml, nid oedd gan ddisgyblion ymwybyddiaeth o'i gymwysiadau ymarferol.
- **Problemau o ran Recriwtio Athrawon:** Roedd heriau parhaus wrth ddenu a chadw athrawon ieithoedd tramor modern, yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion gwledig.

Yn 2009, cyhoeddodd Estyn adroddiad thematig ar ieithoedd rhyngwladol, sef Gwella ieithoedd tramor modern mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru. Yn yr adroddiad hwn, gwnaeth Estyn argymhelliad y dylai ysgolion uwchradd 'ddarparu dwy awr yr wythnos o ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 3' (Estyn, 2009, tudalen 4). Y rhesymeg y tu ôl i'r argymhelliad hwn yw bod angen amser digonol ar ddisgyblion ym Mlynyddoedd 7-9 i wneud cynnydd addas.

Wrth i Gymru barhau i ddiwygio'r cwricwlwm ac asesu, bydd yr adroddiad hwn ar ieithoedd rhyngwladol yn gwerthuso'r cynnydd dros y degawd diwethaf. Mae'n archwilio

sut mae newidiadau polisi, strategaethau addysgegol, a diwygiadau addysgol ehangach wedi dylanwadu ar addysgu a dysgu ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion.

## Datblygiad polisi

Adeg ein hadroddiad diwethaf ar ieithoedd rhyngwladol, megis dechrau cael ei rhoi ar waith yr oedd Strategaeth Dyfodol Byd-eang Llywodraeth Cymru, ar ôl cael ei sefydlu yn 2015. Adnewyddwyd y strategaeth ym mis Tachwedd 2020, ac yn 2022, trwy lansio cynllun strategol tair blynedd ar gyfer ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru. Mae'r cynllun yn cynnwys tri nod strategol, sef:

- **Nod strategol 1:** cefnogi datblygu a chyflwyno darpariaeth ieithoedd rhyngwladol ystyrlon yng Nghymru
- **Nod strategol 2:** rhoi'r medrau, yr wybodaeth a'r profiadau i ymarferwyr er mwyn iddynt allu cynllunio a chyflwyno darpariaeth ieithoedd rhyngwladol
- **Nod strategol 3:** herio'r camsyniadau ynghylch dysgu iaith

Mae Cwricwlwm i Gymru Llywodraeth Cymru: Adroddiad Blynyddol 2024 yn datgan:

> Yn sgil nifer o heriau ar gyfer ieithoedd rhyngwladol yn ein hysgolion, mae rhaglen Dyfodol Byd-eang 2022 i 2025 yn amlinellu ein huchelgais i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n dysgu ieithoedd (Llywodraeth Cymru, 2024, tud. 21).

Er nad yw'r adroddiad yn werthusiad o'r strategaeth Dyfodol Byd-eang, bydd ein canfyddiadau yn hysbysu partneriaid Llywodraeth Cymru a Dyfodol Byd-eang am y llwyddiannau a'r heriau presennol o ran ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion ledled Cymru.

## Diwygio'r cwricwlwm

Ers ein hadroddiad diwethaf yn 2016, bu newidiadau sylweddol i'r cwricwlwm yng Nghymru. Cyflwynodd Cwricwlwm i Gymru y term ieithoedd rhyngwladol yn ei ddeddfwriaeth a'i ganllawiau cwricwlwm; mae hyn yn ymgorffori ieithoedd tramor modern, ieithoedd cymunedol, ieithoedd clasurol ac Iaith Arwyddion Prydain (BSL).

Roedd cyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn cysylltu ieithoedd rhyngwladol yn ffurfiol â Saesneg a'r Gymraeg yn y Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (ILlCh). Nod gosod ieithoedd rhyngwladol ochr yn ochr â'r Saesneg a'r Gymraeg yw datblygu ymagwedd fwy amlieithog a lluosieithog at ddysgu iaith. Amlieithrwydd yw gallu cymdeithas neu unigolyn i ddefnyddio mwy nag un iaith. Lluosieithrwydd yw gallu unigolyn i newid rhwng llawer o ieithoedd mewn gwahanol gyd-destunau, a'u defnyddio.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru, Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (Llywodraeth Cymru, 2021) yn datgan:

> Bwriedir i'r dull amlieithog a lluosieithog hwn danio chwilfrydedd a brwdfrydedd y dysgwyr a chynnig sylfaen gadarn iddyn nhw ddatblygu diddordeb gydol oes yn ieithoedd Cymru ac ieithoedd y byd.

Mae Cefnogi athrawon i fabwysiadu dulliau lluosieithog mewn addysg ieithoedd yng Nghymru (Arfon, 2024) The Institute of Education, University College London, yn dod i'r casgliad fod amrywiaeth o ffactorau yn rhwystro cyflawni gweledigaeth luosieithog Cwricwlwm i Gymru:

> … awgrymir mai'r prif rwystr i athrawon fethu cyflenwi lluosieithrwydd yn llawn trwy'r cwricwlwm ydy'r groesffordd rhwng dryswch yr athrawon ynghylch lluosieithrwydd fel term, absenoldeb canllawiau clir a dysgu proffesiynol i ddefnyddio dulliau lluosieithog mewn addysgu, a rôl arholiadau (tud. 3).

Newid pwysig arall dros y blynyddoedd diwethaf fu cyflwyno ieithoedd rhyngwladol yn y sector cynradd, yn rhan o Gwricwlwm i Gymru.

Mae adroddiad ynghylch Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2023 y British Council yn datgan bod ysgolion cynradd yng Nghymru yn gwneud cynnydd da o ran ymgorffori ieithoedd rhyngwladol yn eu hystafelloedd dosbarth:


> nododd 72 y cant o'r ysgolion cynradd a ymatebodd eu bod yn addysgu Iaith Ryngwladol o fewn amser y cwricwlwm ym mlwyddyn ysgol 2022/23, o gymharu â 41 y cant ym mlwyddyn ysgol 2021/22 (tud. 4).

Mae'r adroddiad thematig hwn yn ystyried ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd rhyngwladol yn y sector cynradd, a pha mor dda y mae ysgolion cynradd ac uwchradd yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio ar gyfer cynnydd disgyblion ar draws y ddau sector.

## Cyfranogiad disgyblion

Mewn erthygl ymchwil ddiweddar, nododd Stollhans (2024) fod mwy o bobl ifanc yng Nghymru yn dewis astudio iaith ryngwladol yn 2024 nag yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, fel mae Siart 1, isod yn dangos, dros y 10 mlynedd ddiwethaf, bu gostyngiad cyffredinol yn nifer y disgyblion sy'n astudio iaith ryngwladol ar lefel TGAU. Roedd y gostyngiadau mwyaf sylweddol mewn Ffrangeg ac Almaeneg, tra bod Sbaeneg yn dangos sefydlogrwydd cymharol. Er gwaethaf ymdrechion i hyrwyddo dysgu ieithoedd, mae cyfanswm yr ymgeisiadau wedi gostwng dros 50 y cant dros y cyfnod 10 mlynedd.


### Siart 1: Ymgeisiadau Ieithoedd Rhyngwladol TGAU 2014-2024




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru – Canlyniadau arholiadau

Mae ymgeisiadau Safon Uwch wedi parhau i ostwng dros y degawd diwethaf, hefyd (gweler Siart 2, isod). Bu gostyngiad sylweddol mewn ymgeisiadau mewn Ffrangeg, sef yr iaith fwyaf poblogaidd i'w hastudio, tra bod Almaeneg wedi aros yn gyson isel. Mae Sbaeneg ac ieithoedd tramor modern eraill wedi amrywio, ond hefyd wedi gostwng, ar y cyfan. Mae cyfanswm nifer yr ymgeisiadau wedi disgyn 59 y cant, sy'n adlewyrchu tuedd ofidus mewn astudio ieithoedd yn y sector ôl-16.

### Siart 2: Ymgeisiadau Ieithoedd Rhyngwladol Safon Uwch




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru – Canlyniadau arholiadau

# Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

A1 Gryfhau addysgu i wella gwybodaeth a medrau disgyblion, a'u hyder i ddefnyddio'r iaith darged yn ddigymell ac yn annibynnol

A2 Gwella cynllunio'r cwricwlwm a threfniadau pontio i sicrhau bod disgyblion yn adeiladu ar ddysgu blaenorol wrth symud o'r sector cynradd i'r sector uwchradd

A3 Adolygu cynllunio'r cwricwlwm ac amserlennu i sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo ar gyfer ieithoedd rhyngwladol, i gynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd effeithiol a chyflawni eu potensial

**Dylai awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion:**

A4 Gryfhau dysgu proffesiynol i sicrhau bod athrawon a staff cymorth, lle bo'n briodol, yn datblygu hyder ac arbenigedd wrth gyflwyno ieithoedd rhyngwladol, yn enwedig yn y sector cynradd

A5 Gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cael cyfle i astudio ar gyfer cymwysterau ieithoedd rhyngwladol, yn enwedig lle mae cyfleoedd mewn ysgolion unigol mewn TGAU a Safon Uwch yn gyfyngedig

**Dylai Llywodraeth Cymru a Medr, lle bo'n berthnasol:**

A6 Gryfhau'r arweiniad sydd ar gael i ysgolion a rhanddeiliaid eraill, i gynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd i ddeall gwerth dysgu ieithoedd rhyngwladol mewn TGAU a Safon Uwch

A7 Cryfhau cymorth cwricwlwm ar gyfer ieithoedd rhyngwladol i helpu ysgolion i gynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer dilyniant a pharhad dysgu, yn enwedig wrth i ddisgyblion symud o'r sector cynradd i'r sector uwchradd

A8 Datblygu ymagwedd genedlaethol at gefnogi gwasanaethau gwella ysgolion, ysgolion, colegau a phartneriaethau AGA i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor addysgu a dysgu ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru

# Ieithoedd rhyngwladol yn y sector cynradd

## Cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn y sector cynradd

Cyflwynwyd ieithoedd rhyngwladol yn rhan o Gwricwlwm i Gymru ar gyfer disgyblion yn y sector cynradd o fis Medi 2022. O dan y cwricwlwm hwn, daeth ieithoedd rhyngwladol (a oedd yn cael eu galw'n ieithoedd tramor modern o'r blaen) yn rhan statudol o MDPh ILlCh. Mae hyn yn golygu bod disgwyl i ddisgyblion brofi a dysgu o leiaf un iaith ryngwladol yn ystod eu haddysg gynradd.

O fewn y cwricwlwm, mae camau cynnydd yn darparu pump o gerrig milltir allweddol, sy'n ymwneud â sut caiff dysgu disgyblion ei strwythuro a'i asesu. Yng Ngham Cynnydd 2 (5-8 oed), mae disgwyliadau'r cwricwlwm yn canolbwyntio'n bennaf ar amlygu i ieithoedd rhyngwladol, er enghraifft:


- adnabod geiriau ac ymadroddion syml, ac ymateb iddynt
- cymryd rhan mewn caneuon a rhigymau
- creu cysylltiadau rhwng ieithoedd
- cymryd rhan mewn gweithgareddau syml sy'n annog chwilfrydedd am ieithoedd.

Yng Ngham Cynnydd 3 (8-11 oed), fodd bynnag, disgwylir i ddisgyblion ddechrau symud y tu hwnt i adnabod a chynhyrchu iaith lafar ac ysgrifenedig syml. O gymharu â'u profiadau cynharach, dylent yn awr wneud cynnydd i:

- ddatblygu medrau cyfathrebu gwell ar lafar
- gwella'u hynganiad a'u rhuglder mewn sgyrsiau sylfaenol
- ehangu eu geirfa, gan adnabod ystod ehangach o eiriau ac ymadroddion
- ffurfio brawddegau syml, gan ddefnyddio strwythurau gramadegol cyfarwydd
- datblygu ymwybyddiaeth ddiwylliannol o'r ieithoedd y maent yn eu dysgu.

Ym mhob un o'r ysgolion cynradd ac ysgolion pob oed yr ymwelom â nhw, roedd arweinwyr wedi cyflwyno ieithoedd rhyngwladol erbyn Blynyddoedd 5 a 6. Fodd bynnag, yn ein harolwg o benaethiaid cynradd, dywedodd tua 30 y cant o ymatebwyr nad oeddent wedi cyflwyno ieithoedd rhyngwladol yn eu hysgolion.

**Siart 3: A yw ieithoedd rhyngwladol wedi cael eu cyflwyno yn rhan o Gwricwlwm i Gymru – ymatebion penaethiaid**




Mae canrannau wedi'u seilio ar ddata gan 53 o ymatebwyr

Nododd 5 o'r ymatebwyr hynny a ddywedodd nad oeddent wedi cyflwyno ieithoedd rhyngwladol eu bod yn bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol. Dywedodd yr ymatebwyr negyddol eraill fod amrywiaeth o rwystrau rhag cyflwyno ieithoedd rhyngwladol yn y sector cynradd, gan gynnwys:


- yr angen i flaenoriaethu Cymraeg fel ail iaith
- y diffyg arbenigedd pwnc mewn ieithoedd rhyngwladol
- y pwysau amser y maent yn amgyffred eu bod yn bodoli yn y cwricwlwm cynradd
- yr angen i ganolbwyntio ar ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion yn Saesneg ac yn Gymraeg
- diffyg dysgu proffesiynol a chyllid i ryddhau staff.

Yn yr ysgolion yr ymwelom â nhw, dywedodd arweinwyr wrthym yn aml ei bod yn anodd neilltuo amser digonol i ieithoedd rhyngwladol o fewn y cwricwlwm cynradd. Mewn ychydig o ysgolion, mynegodd arweinwyr eu pryderon am effaith bosibl ar ddysgu a chynnydd disgyblion yn y Gymraeg, lle mae hyn yn flaenoriaeth ysgol gyfan ar gyfer gwella.

## Dewisiadau iaith

Yn ein harolwg cenedlaethol o benaethiaid cynradd, gofynnom ni ba ieithoedd sy'n cael eu haddysgu yn eu hysgolion.

**Siart 4: Ieithoedd sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion cynradd – ymatebion penaethiaid**




Mae canrannau wedi'u seilio ar ddata gan 37 o ymatebwyr

Yn yr ysgolion yr ymwelom â nhw, ac yn yr ysgolion hynny a ymatebodd i'n harolwg, fel ei gilydd, Ffrangeg oedd yr iaith fwyaf poblogaidd sy'n cael ei haddysgu yn y sector cynradd. Dilynwyd hyn gan Sbaeneg, ac wedyn Almaeneg. Fe wnaeth tua 27% o ymatebwyr i'n harolwg ddewis "arall" fel yr iaith sy'n cael ei haddysgu, yr oedd llawer ohonynt yn cyfeirio at Iaith Arwyddion Prydain (BSL).

Mewn ychydig o ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd ethos amlieithog yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus, lle caiff disgyblion eu hamlygu i lawer o ieithoedd trwy gyfarchion, arddangosfeydd, a dysgu trawsgwricwlaidd. Mabwysiadodd ychydig o ysgolion ddull hynod gynhwysol trwy ymgorffori ieithoedd sy'n cael eu siarad gan eu disgyblion gartref, sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth yng nghymunedau eu hysgolion. Roedd y ffocws hwn ar amlieithrwydd yn meithrin diwylliant o barch am wahanol ieithoedd, ac yn annog disgyblion i weld y gwerth mewn dysgu ieithoedd rhyngwladol o oedran cynnar.

### Dathlu amrywiaeth ieithyddol

Mae **Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Pentip, Sir Gaerfyrddin**, yn arddel amrywiaeth ieithyddol trwy ymgorffori cyfleoedd trawsieithu ar draws ei chwricwlwm. Gan fod 14 o ieithoedd cartref, mae disgyblion yn naturiol yn creu cysylltiadau rhwng ieithoedd trwy gyfarchion, gwasanaethau ysgol, a gweithgareddau ystafell ddosbarth amlieithog. Er enghraifft, mae athrawon yn amlygu cysylltiadau geirfa rhwng Saesneg, Pwyleg a Ffrangeg, tra bod disgyblion yn archwilio gwahanol ieithoedd trwy arferion cofrestru a phosteri amlieithog. Mae laniardiau ieithoedd goroesi yn cefnogi disgyblion Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY), a defnyddir Makaton i gynorthwyo cyfathrebu ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae rhieni'n ymestyn y dull hwn

trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau fel bore Cantonaidd, gan feithrin gwerthfawrogiad diwylliannol. O ganlyniad i ymagwedd gynhwysol yr ysgol tuag at wahanol ddiwylliannau ac ieithoedd, mae disgyblion yn datblygu agweddau cryf a chadarnhaol tuag at ieithoedd, gan gydnabod eu rôl mewn cynhwysiant a chyfathrebu.

## Cynllunio'r Cwricwlwm

Mewn llawer o'r ysgolion cynradd ac ysgolion pob oed yr ymwelom â nhw, roedd dysgu ieithoedd rhyngwladol yn dod yn rhan annatod o'r cwricwlwm cynradd yn gynyddol. Yn yr ysgolion yr ymwelom â nhw, dywedodd arweinwyr eu bod wedi datblygu cynllun strategol i gyflwyno cwricwlwm ieithoedd rhyngwladol. Yn yr ysgolion hyn, roedd arweinwyr ac athrawon wedi ymgorffori dysgu ieithoedd rhyngwladol yn llwyddiannus o fewn themâu cwricwlwm ehangach. Fodd bynnag, mewn ychydig o ysgolion, roedd dull mwy ad-hoc ac achlysurol, lle nad oedd athrawon ac arweinwyr yn rhoi ystyriaeth ddigon gofalus i'r hyn yr oeddent eisiau i ddisgyblion ei ddysgu mewn ieithoedd rhyngwladol.

Pan roedd yn llwyddiannus, roedd ymagwedd thematig at ddysgu ieithoedd yn sicrhau lefelau uchel o ymgysylltiad gan ddisgyblion, gan ddod ag ieithoedd yn fyw trwy ddefnydd ystyrlon mewn cyd-destunau byd go iawn. Er enghraifft, mewn rhai ysgolion, roedd athrawon yn cysylltu dysgu ieithoedd â phrosiectau daearyddiaeth, hanes neu wyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM), ond mewn ysgolion eraill yr ymwelom â nhw, mae dysgu ieithoedd wedi cael ei ymgorffori mewn agweddau mwy creadigol ar y cwricwlwm, fel y celfyddydau mynegiannol. Mewn ychydig o ysgolion hynod effeithiol, roedd hyd yn oed y disgyblion ieuengaf yn mwynhau cael eu cyflwyno i ieithoedd rhyngwladol trwy ganeuon a phrofiadau diwylliannol eraill, ac roedd ffocws cryf ar ddatblygu dimensiwn rhyngwladol y cwricwlwm ac ehangu gorwelion disgyblion.

### Dod â'r byd i Fargod

Mae **Ysgol Gynradd Santes Gwladys, Caerffili** wedi mabwysiadu strategaeth i 'Ddod â'r Byd i Santes Gwladys' ('Bring the World to St. Gwladys'). Mae hon yn ymagwedd ysgol gyfan at roi ieithoedd rhyngwladol a diwylliannau ar waith ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn cysylltu dysgu ieithoedd yn fwriadol â themâu ehangach y cwricwlwm a gweithgareddau diwylliannol cyfoethog, gan sicrhau nad yw ieithoedd yn cael eu haddysgu ar wahân, ond yn rhan o brofiadau dysgu ystyrlon, byd go iawn. Mae arddangosfeydd amlieithog mewn ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd a rennir yn atgyfnerthu'r dysgu.

Mae ymagwedd greadigol yr ysgol at ddysgu ieithoedd wedi'i chysylltu'n fwriadol ac yn bwrpasol â thestunau a phynciau dosbarth i sicrhau dysgu dilys ar draws pob MDPh. Mae'r ysgol yn defnyddio'r cyfleoedd a ddarperir gan ddigwyddiadau byd-eang allweddol, fel y Gemau Olympaidd, i sicrhau bod plant yn dod ar draws diwylliannau ac ieithoedd amrywiol yn rheolaidd. Mae hefyd yn cynnwys rhieni, gofalwyr a'r gymuned leol yn dda. Er enghraifft, tra'n astudio Tutankhamun, bu disgyblion yn dysgu cyfarchion Arabeg gyda chymorth gan deulu o Syria. Trwy'r profiadau diwylliannol

cyfoethog hyn, mae disgyblion yn datblygu gwerthfawrogiad am wahanol draddodiadau a brwdfrydedd cryf dros ddysgu ieithoedd.

Mewn llawer o ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd profiadau dysgu mwy ffurfiol yn ychwanegu'n fuddiol at y dulliau trawsgwricwlaidd hyn wrth i ddisgyblion symud i mewn i Flynyddoedd 5 a 6, gan ganiatáu ar gyfer rhoi amser mwy ffocysedig a dynodedig i ddatblygu medrau dysgu iaith. Pan roedd hyn yn fwyaf llwyddiannus, roedd y sesiynau'n sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau'n systematig. Roedd y gwersi hyn yn gweithio'n dda ochr yn ochr â phrofiadau dysgu thematig, gan greu ymagwedd gytbwys ac effeithiol at ddysgu ieithoedd yn y lleoliad cynradd. Yn yr enghreifftiau gorau a welwyd, roedd gwersi'n cael eu cynllunio'n ofalus i ystyried cynnydd disgyblion a datblygiad iaith dyfnach. Roedd arweinwyr ac athrawon yn cynllunio'n effeithiol, gan amlinellu'r hyn roeddent yn disgwyl i ddisgyblion ei gyflawni i gyd-fynd â'u disgrifiadau o ddysgu, wedi'u hamlinellu yng nghanllawiau'r cwricwlwm. Roedd y dulliau hyn yn helpu disgyblion i wneud cynnydd cyson ac adeiladu ar eu medrau iaith yn gydlynus.

### Cynllunio ar gyfer dilyniant

Mae **Ysgol Gynradd Mountain Lane, Sir y Fflint**, wedi rhoi model strategol a graddol ar waith ar gyfer ieithoedd rhyngwladol, gan sicrhau bod disgyblion yn datblygu hyder ieithyddol o'r blynyddoedd cynnar i Flwyddyn 6.  Mae'r llwybr strwythuredig hwn yn cyflwyno Iaith Arwyddion Prydain yn y dosbarth Derbyn hyd at Flwyddyn 2, Sbaeneg ym Mlynyddoedd 3 a 4, a Ffrangeg ym Mlynyddoedd 5 a 6, i gyd-fynd â darpariaeth ysgol uwchradd. Mae ffocws cryf ar ffoneg a lluosieithrwydd yn galluogi disgyblion i gymharu patrymau ieithyddol, fel cytrasau (geiriau sy'n edrych ac / neu'n swnio'n debyg), rhwng Saesneg, Cymraeg, Ffrangeg a Sbaeneg. Mae athrawon yn defnyddio arfer adalw (strategaeth ddysgu sy'n cynnwys galw gwybodaeth i gof i gryfhau cof a dealltwriaeth), gan atgyfnerthu dysgu blaenorol trwy holi, drilio geirfa, a chymwysiadau trawsgwricwlaidd, er enghraifft integreiddio Ffrangeg mewn gwersi hanes. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag ysgolion uwchradd lleol, gan sicrhau bod cynnydd yn cael ei ystyried wrth i ddisgyblion symud i'r ysgol uwchradd. Mae'r dull clir a threfnus hwn yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd yn hyderus mewn ieithoedd rhyngwladol, gan eu paratoi ar gyfer y cam dysgu nesaf.

Mewn ychydig o ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd defnydd effeithiol yn cael ei wneud o dechnoleg i gefnogi ac ymestyn cynllunio a chyflwyno ieithoedd rhyngwladol o fewn y cwricwlwm cynradd. Roedd llawer o ysgolion yn defnyddio offer cynllunio ar-lein i'w helpu i sicrhau bod addysgu ieithoedd yn raddol ac yn ddigon heriol. Mewn ychydig o ysgolion, roedd disgyblion yn mynychu gwersi iaith rhithwir rheolaidd gydag ysgolion eraill yn eu clwstwr, lle byddai technoleg yn ychwanegu at weithgareddau mwy traddodiadol, dan arweiniad athrawon, yn yr ystafell ddosbarth. Roedd ysgolion eraill yn y sector cynradd yn manteisio ar ddarpariaeth genedlaethol i ddysgu ieithoedd ar-lein.

### Dysgu Almaeneg gyda Goethe-Institut ac e-sgol

Mae **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Rhaeadr, Powys**, wedi ymgorffori dysgu Almaeneg yn ei chwricwlwm yn llwyddiannus, gan ddefnyddio e-sgol, sef platfform ar-lein a ariennir gan Lywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Goethe-Institut i ddarparu profiadau dysgu dilys o ansawdd uchel. Mae'r gwersi strwythuredig a rhyngweithiol yn ennyn diddordeb disgyblion trwy ganeuon, cwisiau ar-lein, a sesiynau byw, gan wneud dysgu yn hwyl ac yn hygyrch. Mae disgyblion wedi datblygu diddordeb cryf mewn Almaeneg a dysgu ieithoedd, gyda thrafodaethau am sut mae ieithoedd yn cefnogi gyrfaoedd a theithio yn y dyfodol. Un o'r nodweddion allweddol yw'r budd i athrawon, sy'n dysgu ochr yn ochr â disgyblion, gan gynyddu eu hyder mewn cyflwyno ieithoedd rhyngwladol. Mae'r model hyblyg hwn ar gyfer dysgu ieithoedd yn sicrhau hygyrchedd eang, ac mae e-sgol yn dweud[1] bod bron i 3,000 o ddisgyblion ledled Cymru wedi cymryd rhan. Er mai megis dechrau datblygu y mae hyn, mae athrawon ac arweinwyr yn Rhaeadr yn gweld bod hyn yn ffordd gynaliadwy ac effeithiol o ymgorffori ieithoedd rhyngwladol yng nghwricwlwm yr ysgol.

### Yn gryno

- Roedd ysgolion mewn gwahanol gyfnodau o ran rhoi ieithoedd rhyngwladol ar waith yn y cwricwlwm cynradd, a rhai ohonynt yn eu hintegreiddio'n ystyrlon yn themâu'r cwricwlwm, tra bod ysgolion eraill yn defnyddio dull mwy ad hoc.
- Roedd amser cwricwlwm yn cael ei amgyffred yn rhwystr cyffredin, a rhai arweinwyr yn ei chael yn anodd neilltuo amser ar gyfer ieithoedd rhyngwladol ochr yn ochr â blaenoriaethau fel llythrennedd Cymraeg a Saesneg.
- Yn aml, roedd ysgolion llwyddiannus yn defnyddio dull thematig a thrawsgwricwlaidd, gan ymgorffori dysgu ieithoedd mewn meysydd pwnc eraill, fel y dyniaethau, y celfyddydau mynegiannol, neu STEM i'w wneud yn fwy ystyrlon a difyr.
- Ffrangeg yw'r iaith fwyaf cyffredin sy'n cael ei haddysgu, wedi'i dilyn gan Sbaeneg ac Almaeneg, gydag ychydig o ysgolion hefyd yn cyflwyno Iaith Arwyddion Prydain (BSL) neu'n ymgorffori ieithoedd cymunedol i adlewyrchu amrywiaeth disgyblion.
- Mae modelau dilyniant yn dod i'r amlwg, a rhai ysgolion yn defnyddio cynllunio strwythuredig a dulliau clwstwr i ddatblygu medrau iaith o'r blynyddoedd cynnar i Flwyddyn 6.

## Dysgu ac addysgu ieithoedd rhyngwladol yn y sector cynradd

Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion oedran cynradd yn yr ysgolion yr ymwelom â nhw yn dangos agweddau aruthrol o gadarnhaol tuag at ddysgu ieithoedd rhyngwladol. Roedd y farn hon yn cael ei rhannu gan y penaethiaid cynradd a ymatebodd i'n harolwg. Mae'r agweddau cadarnhaol hyn at ddysgu ieithoedd yn gryfder nodedig i adeiladu arno. Yn gyffredinol, roedd disgyblion cynradd yn deall manteision ymarferol dysgu iaith, a llawer

[1] Yn ôl data mewnol e-sgol heb ei gyhoeddi

ohonynt yn ymwybodol o'r modd y mae dysgu ieithoedd yn ddefnyddiol ar gyfer swyddi a gyrfaoedd yn y dyfodol. Crybwyllodd disgyblion fod gwybod iaith arall yn helpu â theithio a chyfathrebu rhyngwladol, a bod dysgu ieithoedd yn gallu arwain at gyfleoedd cyfoethog, fel cyfarfod â phobl newydd a gwneud ffrindiau o wledydd eraill.

Mewn llawer o ysgolion, roedd disgyblion yn mwynhau gemau, caneuon a ffyrdd rhyngweithiol eraill o ddysgu iaith yn fawr. Roeddent yn hoffi gweithgareddau a oedd yn gwneud dysgu iaith yn hwyl, yn ddynamig ac yn ddilys. Er enghraifft, roedd llawer o ddisgyblion yn mwynhau blasu bwyd o wahanol wledydd a dysgu am wahanol draddodiadau. Roedd llawer ohonynt yn gweld dysgu ieithoedd yn heriol ond yn ddifyr ac roeddent yn siarad yn hyderus heb ofni gwneud camgymeriadau. Roeddent yn cymryd rhan â brwdfrydedd mewn chwarae rôl, drilio geirfa a phatrymau iaith, ac yn ymateb yn dda i'w hathrawon, a oedd yn fodelau rôl iaith da, gan amlaf. Roedd ychydig o ddisgyblion hefyd yn cydnabod cysylltiadau rhwng ieithoedd, er enghraifft nodi geiriau sy'n debyg yn yr iaith darged a'r Gymraeg neu'r Saesneg, ac roeddent yn gyfforddus yn defnyddio termau fel 'cytrasau' mewn trafodaethau â'u cyfoedion.

### Lluosieithrwydd

Mewn ychydig o ysgolion cynradd yr ymwelom â nhw, roedd diwylliant ysgol gyfan pwrpasol o luosieithrwydd. Yn yr ysgolion hyn, roedd dysgu ieithoedd yn cael ei ymgorffori mewn arferion ystafell ddosbarth bob dydd, a disgyblion yn cael eu hannog i ddefnyddio ieithoedd rhyngwladol ochr yn ochr â'r Saesneg a'r Gymraeg trwy gydol y dydd. Mewn tua hanner yr ysgolion yn ein sampl, roedd gwneud cymariaethau rhwng ieithoedd yn rhan annatod o ddysgu. Roedd y dull hwn yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o batrymau ieithyddol mewn llawer o ieithoedd. Mewn ychydig o ysgolion, roedd athrawon yn dangos sut mae geiriau mewn gwahanol ieithoedd wedi'u cysylltu trwy esbonio'u tarddiad (etymoleg). Er enghraifft, maent yn annog disgyblion i drafod elfennau tebyg rhwng geiriau fel 'J'habite' a 'habitat', gan ddangos sut mae deall tarddiadau geiriau yn cefnogi cadw ac amgyffred geirfa.


### Trawsieithu ar waith

Mae **Ysgol Bodhyfryd, Wrecsam**, wedi ymgorffori trawsieithu fel ymagwedd naturiol ac effeithiol at ddysgu ieithoedd, gan alluogi disgyblion i ddefnyddio llawer o ieithoedd gyda'i gilydd. Mae disgyblion yn llywio rhwng Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol yn hyderus, gan ddangos llythrennedd amlieithog cryf. O oedran cynnar, mae disgyblion yn trosglwyddo medrau ar draws ieithoedd, gan gydnabod tebygrwydd ieithyddol a chymhwyso gwybodaeth ar draws pynciau. Er enghraifft, mae disgyblion yn darllen chwedl Dsieineaidd yn Saesneg, wedyn yn ailysgrifennu ac yn gwneud darluniau yn Gymraeg a Mandarin. Mae disgyblion mwy abl yn creu posteri dwyieithog a cherddi acrostig yn annibynnol, gan ddefnyddio Cymraeg a Mandarin. Mae disgyblion yn gweithio'n annibynnol ac mewn grwpiau i ddadansoddi, creu a chyflwyno gwaith ar draws llawer o ieithoedd yn rhwydd. Mae'r dull trawsieithu dynamig hwn yn meithrin ystwythder a hyder ieithyddol, gan helpu disgyblion i weld cysylltiadau rhwng ieithoedd a gweld dysgu iaith fel proses greadigol.

## Datblygu medrau llafaredd disgyblion

Bron ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, roedd athrawon yn blaenoriaethu llafaredd disgyblion, gan eu helpu i ddatblygu hyder mewn gwrando ac mewn siarad yn yr iaith darged. Yn yr arolwg o benaethiaid cynradd, dywedodd bron pob un o'r ymatebwyr eu bod yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau gwrando a siarad, o gymharu â thua hanner sydd hefyd yn canolbwyntio ar ddarllen ac ysgrifennu.

**Siart 5: Medrau y mae disgyblion yn eu datblygu mewn gwersi ieithoedd cynradd**




Mae canrannau wedi'u seilio ar ddata gan 37 o ymatebwyr.

Roedd llawer o athrawon y buom yn eu harsylwi yn ystod ein hymweliadau yn fodelau rôl iaith da. Roeddent yn defnyddio'r iaith darged yn hyderus mewn gwersi ac yn ynganu'n gywir. Mewn ychydig o ysgolion, roedd athrawon yn aml yn chwarae clipiau sain ar-lein gan siaradwyr iaith gyntaf, a oedd yn helpu disgyblion i glywed iaith ddilys yn cael ei defnyddio. Mewn ychydig o ysgolion, roedd athrawon yn defnyddio dulliau wedi eu seilio ar ffoneg, fel torri geiriau yn seiniau unigol (segmentu) a sillafau i gefnogi ynganiad a chyfuno seiniau unigol i ffurfio geiriau (cyfuno) i gefnogi medrau darllen disgyblion. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid oedd athrawon yn hyderus yn siarad yr iaith darged ac roeddent yn ynganu geiriau'n anghywir. Er ei bod yn bwysig fod athrawon cynradd yn teimlo'n gyfforddus i fentro a dysgu ochr yn ochr â disgyblion, mewn ychydig o achosion, roedd disgyblion yn gwneud camgymeriadau y byddai angen eu cywiro yn ddiweddarach. Mewn ychydig o ysgolion, roedd disgyblion yn ei chael yn anodd cofio geirfa a ddysgwyd yn y gorffennol oherwydd diffyg cyfleoedd strwythuredig a rheolaidd iddynt ymarfer yr iaith a'i chofio.

Dyma enghreifftiau o strategaethau llwyddiannus a arsylwyd gennym yn ystod ein hymweliadau cynradd i ddatblygu medrau gwrando a siarad disgyblion:

- **ailadrodd a drilio** – Disgyblion yn cymryd rhan mewn ailadrodd a drilio strwythuredig i helpu datblygu ynganiad cywir a rhuglder yn yr iaith.
- **caneuon, rhigymau a siantiau** – Canu a gweithgareddau yn seiliedig ar rythmau sy'n atgyfnerthu ynganiad cywir ac yn helpu disgyblion i gofio geirfa allweddol.
- **creu brawddegau a sgaffaldio** – Athrawon yn darparu strwythurau brawddeg defnyddiol a sbardunau wedi'u sgaffaldio i gynorthwyo disgyblion i ffurfio eu hymatebion ar lafar, a'u hymestyn. Mae sgaffaldio yn dechneg lle mae athrawon yn cynorthwyo disgyblion wrth iddynt ddatblygu medrau newydd a dealltwriaeth o gysyniadau. Mae hyn yn helpu disgyblion i gyflawni tasgau na allant eu cwblhau yn annibynnol ar hyn o bryd.
- **gemau a gweithgareddau rhyngweithiol** – Athrawon yn defnyddio gemau i ffurfio geirfa, a sesiynau holi ac ateb a heriau grŵp i ddatblygu hyder disgyblion wrth siarad.
- **annog mentro** – Athrawon yn annog disgyblion i siarad heb ofni gwneud camgymeriadau, a oedd yn datblygu eu gwydnwch a'u hyder o ran defnyddio'r iaith darged.
- **defnyddio recordiadau o siaradwyr iaith gyntaf** – Athrawon yn defnyddio recordiadau o sgyrsiau siaradwyr iaith gyntaf, fel bod disgyblion yn clywed ynganiad a goslef ddilys.
- **sgyrsiau cyfoedion a gwaith grŵp** – Athrawon yn cynorthwyo disgyblion i gymryd rhan mewn trafodaethau grwpiau bach a pharau i ymarfer siarad mewn amgylchedd hamddenol a chefnogol.
- **gweithgareddau holi ac ymateb ar lafar** – Athrawon yn gofyn cwestiynau penagored, gan annog disgyblion i ymestyn eu hatebion ac ymarfer siarad yn ddigymell.

### Datblygu medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion

Er bod y rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn canolbwyntio'n fuddiol ar roi blaenoriaeth i ddatblygu medrau llafaredd disgyblion, mewn ychydig o achosion, roedd ysgolion hefyd yn darparu cyfleoedd a ddewiswyd yn dda i ddatblygu darllen ac ysgrifennu disgyblion. Pan roeddent yn fwyaf effeithiol, roedd y profiadau hyn yn ymestyn galluoedd disgyblion i siarad yn hyderus yn yr iaith darged.

Mewn ychydig o ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd disgyblion yn ymgymryd â thasgau ysgrifenedig byr a phwrpasol, er enghraifft i ysgrifennu amdanyn nhw eu hunain. Roedd athrawon yn darparu sgaffaldiau a sbardunau buddiol ar eu cyfer. Roedd ychydig o ddisgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n annibynnol, gan ymestyn eu brawddegau y tu hwnt i strwythurau sylfaenol trwy ddefnyddio cysyllteiriau ac ansoddeiriau. Fodd bynnag, mewn ychydig o ysgolion, roedd disgyblion yn cwblhau gweithgareddau ysgrifennu nad oeddent yn eu helpu i ddatblygu ac ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r iaith darged. Pan roedd yr addysgu'n llai effeithiol, roedd gweithgareddau yn aml yn cynnwys copïo a gweithgareddau ar lefel isel iawn, nad oeddent yn canolbwyntio'n ddigon agos ar wella medrau disgyblion. Roedd hyn yn aml yn cael effaith andwyol ar frwdfrydedd disgyblion dros ddysgu ieithoedd.

Mewn ychydig o ysgolion, roedd athrawon wedi dechrau datblygu medrau darllen disgyblion. Er enghraifft, roedd disgyblion yn darllen ac yn nodi camgymeriadau mewn testunau ysgrifenedig, gan adnabod sillafu a strwythurau brawddeg cywir. Mewn ychydig iawn o enghreifftiau, buom yn arsylwi disgyblion yn darllen llenyddiaeth ac yn gwylio ffilmiau yn yr iaith darged. Roedd hyn yn helpu datblygu eu dealltwriaeth o destunau mewn iaith arall lle roeddent yn galw gwybodaeth i gof ac yn casglu ystyr yn llwyddiannus, yn ogystal ag ysbrydoli diddordeb yn niwylliant ac ieithoedd gwledydd eraill.

### Defnyddio ffilm, celf a llenyddiaeth i ddod ag ieithoedd yn fyw

Mae **Ysgol Gynradd Mountain Lane, Sir y Fflint**, yn defnyddio llenyddiaeth, ffilm, a chelf i ddod â dysgu ieithoedd yn fyw, gan sicrhau bod disgyblion yn ymgysylltu ag iaith a diwylliant mewn ffyrdd ystyrlon. Mae egwyddor Cwricwlwm i Gymru, ‘Mae llenyddiaeth yn tanio’r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd’, yn ganolog i ymagwedd yr ysgol at ieithoedd rhyngwladol. Mae disgyblion yn archwilio testunau dilys, fel ‘Le Petit Nicolas’ ac ‘Asterix’, gan ddatblygu geirfa, dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Mae ffilm a cherddoriaeth yn ymestyn medrau gwrando ac ynganiad, tra bod prosiectau artistig, fel astudio arlunwyr o Sbaen fel Picasso neu adeiladu modelau o Dŵr Eiffel, yn helpu datblygu cysylltiadau diwylliannol. Trwy ddysgu am wyliau ac adrodd storïau, mae disgyblion yn ymdrochi yn niwylliannau bydoedd sy’n siarad Ffrangeg a Sbaeneg, gan ennill gwerthfawrogiad bywyd go iawn o ddysgu ieithoedd. Trwy integreiddio elfennau diwylliannol ochr yn ochr â dysgu ieithoedd, nod yr ysgol yw sicrhau bod disgyblion yn datblygu brwdfrydedd, creadigrwydd a chwilfrydedd am ieithoedd rhyngwladol.

## Datblygu hyder a medrau dysgu’n annibynnol disgyblion

Mewn ychydig o ysgolion cynradd yn y sampl, gwelsom ymagweddau effeithiol at feithrin dysgu annibynnol mewn ieithoedd rhyngwladol.

Dyma enghreifftiau o strategaethau effeithiol i ddatblygu dysgu annibynnol yn yr ystafelloedd dosbarth cynradd yr ymwelom â nhw:

- **annog ymreolaeth disgyblion** – Mewn ychydig o ysgolion, roedd disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain trwy greu eu llyfrau geirfa personol eu hunain, gan ddefnyddio offer digidol yn annibynnol i wirio ac ymestyn eu dysgu, a dod o hyd i batrymau ac elfennau tebyg rhwng ieithoedd i ddyfnhau eu dealltwriaeth eu hunain.
- **cydweithio â’u cyfoedion** – Mewn llawer o ysgolion, roedd disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu mewn grwpiau, fel gemau ac ymarferion chwarae rôl, gan helpu disgyblion i ddysgu oddi wrth ei gilydd.
- **hunanasesu ac asesu cyfoedion** - Mewn ychydig o ysgolion, roedd athrawon yn cynorthwyo disgyblion i fyfyrio ar eu cynnydd eu hunain gan ddefnyddio offer hunanasesu, fel olrhain eu cynnydd eu hunain yn erbyn meini prawf llwyddiant. Roedd yr offer hwn hefyd yn eu cynorthwyo i ymgymryd ag asesu cyfoedion yn

bwrpasol, er enghraifft nodi gwallau mewn sillafu a gramadeg yng ngwaith ei gilydd.
- **datblygu gwydnwch** – Roedd athrawon yn annog disgyblion i siarad heb ddibynnu'n ormodol ar sgaffaldiau llafar, gweledol neu ysgrifenedig, gan eu helpu i ddod yn fwy hyderus a rhugl. Mewn ychydig o ysgolion, roedd athrawon yn herio'u disgyblion mwyaf abl i arbrofi â strwythurau iaith a geirfa newydd yn annibynnol.

Fodd bynnag, mewn mwyafrif o ysgolion yr ymwelom â nhw, nid oedd datblygu dysgu annibynnol yn cael ei ymgorffori'n gyson, ac roedd disgyblion yn aml yn dibynnu'n helaeth ar gyfarwyddyd a gweithgareddau wedi'u harwain gan athrawon.

### Magu hyder ac annibyniaeth disgyblion

Mae **Ysgol Pencae, Caerdydd**, wedi datblygu hyder ac annibyniaeth mewn dysgu ieithoedd trwy ddefnyddio strategaethau addysgu difyr a hyrwyddo annibyniaeth disgyblion. Mae disgyblion yn defnyddio ymadroddion Ffrangeg ac Almaeneg yn hyderus ac yn annibynnol, gan gymhwyso'u dysgu mewn gemau, deialogau, a thasgau creadigol heb ddibynnu'n ormodol ar gymorth gan athrawon. Maent yn cofnodi eu sgyrsiau, yn creu fideos, ac yn ymgysylltu â phlatfformau dysgu digidol, gan atgyfnerthu eu medrau iaith trwy gyfranogiad gweithredol. Mae athrawon yn blaenoriaethu iaith lafar, gan ddefnyddio caneuon, rhigymau, ac ailadrodd i gefnogi rhuglder. Caiff disgyblion eu hannog i arbrofi ag iaith, creu cysylltiadau ar draws y Gymraeg, y Saesneg, ac ieithoedd rhyngwladol, ac elwa ar gamgymeriadau fel rhan o ddysgu. Mae'r dull graddol hwn i fagu hyder yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu meddylfryd a gwydnwch cadarnhaol, gan eu paratoi ar gyfer dysgu ieithoedd ymhellach.

Roedd llawer o athrawon cynradd yn asesu cynnydd disgyblion mewn dysgu ieithoedd yn effeithiol yn ystod y sesiynau yr ymwelom â nhw. Yn aml, roeddent yn defnyddio holi a strategaethau asesu ffurfiannol eraill yn dda i fonitro cynnydd disgyblion a'u helpu i wella. Mewn ychydig o ysgolion, datblygwyd cynllunio defnyddiol gan roi trosolwg i athrawon o'r hyn y dylai disgyblion ei ddysgu dros gyfnod penodol, wedi'i alinio â'r camau cynnydd a'r disgrifiadau dysgu perthnasol. Fodd bynnag, bron ym mhob achos, nid yw ysgolion wedi ystyried eto sut i sicrhau bod athrawon dilynol yn deall y dysgu penodol sydd eisoes wedi digwydd mewn ieithoedd rhyngwladol nac yn defnyddio hyn i sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei herio a'i gynorthwyo'n briodol yn ei gamau nesaf. Bron ym mhob ysgol, nid oedd ymagwedd strwythuredig at adolygu a chydnabod cynnydd disgyblion. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd i ysgolion fonitro effaith y ddarpariaeth, gan gynnwys ansawdd yr addysgu, ar ddysgu a chynnydd disgyblion mewn ieithoedd rhyngwladol.

Yn aml, roedd ysgolion uwchradd yn cael ychydig iawn o wybodaeth, os o gwbl, am ddysgu blaenorol disgyblion yn y cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, gan ei gwneud yn anodd sicrhau parhad. Yn ychwanegol, roedd yr anghysondebau mewn ymagweddau at addysgu a dysgu ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion cynradd ar draws clystyrau yn gwneud pontio effeithiol yn hynod heriol.

### Yn gryno

- Yn gyffredinol, roedd disgyblion yn mwynhau dysgu ieithoedd, yn enwedig trwy ddulliau rhyngweithiol fel caneuon, gemau, chwarae rôl, a gweithgareddau diwylliannol, sy’n eu helpu i fagu hyder ac ymgysylltiad.
- Roedd athrawon yn blaenoriaethu llafaredd, yn canolbwyntio ar siarad a gwrando trwy ailadrodd strwythuredig a drilio geirfa.
- Roedd llawer o athrawon yn fodelau rôl iaith cadarnhaol, yn defnyddio’r iaith darged yn hyderus ac yn annog mentro, er nad oedd ychydig ohonynt yn meddu ar wybodaeth bynciol, gan arwain at anghywirdeb wrth ynganu.
- Roedd dulliau lluosieithog yn datblygu, ac roedd disgyblion yn creu cysylltiadau rhwng y Saesneg, y Gymraeg, ac ieithoedd rhyngwladol, gan ymestyn eu dealltwriaeth o batrymau gramadeg a geirfa.
- Roedd cyfleoedd ar gyfer dysgu’n annibynnol yn amrywio, ac ychydig o ysgolion yn annog ymreolaeth, ond roedd llawer o ddisgyblion yn parhau i ddibynnu’n ormodol ar gymorth athrawon.
- Nid oedd ysgolion cynradd yn rhannu manylion am ddisgyblion yn dysgu ieithoedd rhyngwladol gydag ysgolion uwchradd fel mater o drefn, ac mae hyn yn golygu bod y cyfnod pontio yn hynod heriol.


# Ieithoedd rhyngwladol yn y sector uwchradd

## Cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn y sector uwchradd

### Dewisiadau Iaith

Roedd yn glir o'n trafodaethau yn yr ysgolion yr ymwelom â nhw, a thrwy ddadansoddi ein harolwg o arweinwyr ac athrawon yn y sector uwchradd, fod gan bron bob ysgol fodel cwricwlwm strwythuredig sy'n sicrhau bod disgyblion yn cael cyfle i astudio o leiaf un iaith ryngwladol ym Mlynyddoedd 7-9.

**Siart 6: Ieithoedd sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion uwchradd**




Mae canrannau wedi'u seilio ar ddata gan 52 o ymatebwyr.

Dywedodd dros 90% o arweinwyr ac athrawon uwchradd a ymatebodd i'n harolwg fod Ffrangeg yn cael ei haddysgu yn eu hysgolion. Y dewis mwyaf poblogaidd nesaf oedd Sbaeneg, sef 61.5%, ac wedyn Almaeneg, sef 26.9%. At ei gilydd, roedd y niferoedd hyn yn debyg yn yr ysgolion yr ymwelom â nhw, ac mewn llawer o achosion, roedd disgyblion hefyd yn gallu sefyll cymwysterau mewn ieithoedd cymunedol eraill, sy'n helpu gwella cynwysoldeb ac ymgysylltiad diwylliannol ehangach.

### Dathlu amrywiaeth ieithyddol

Mae poblogaeth y disgyblion yn **Ysgol Esgob Gore, Abertawe**, yn amrywiol yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol. Nod yr ysgol yw darparu ymagwedd bersonoledig at anghenion dysgwyr sy'n galluogi pob un o'r dysgwyr i ffynnu fel unigolion ac fel aelodau o gymuned ysgol unedig. Mae'r pennaeth a'i huwch dîm yn rhoi ffocws cryf ar alluogi

dysgwyr i ddatblygu eu medrau ieithyddol, boed hynny trwy drefnu darpariaeth i grwpiau bach barhau i ddysgu iaith yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth neu drwy ddarparu cymorth a thiwtora ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno ennill cymwysterau yn eu hieithoedd treftadaeth neu'u hieithoedd cartref. O ganlyniad, yn 2024, enillodd cyfanswm o 30 o ddisgyblion gymwysterau TGAU mewn Arabeg, Bengaleg, Tsieinëeg, Ffrangeg, Almaeneg, Groeg, Eidaleg, Pwyleg, Portiwgaleg a Sbaeneg. Mae gweithgareddau allgyrsiol, fel clwb amlieithog poblogaidd, 'jamio barddoniaeth' lle gall dysgwyr gyflwyno'u cerddi wedi'u hysgrifennu mewn mwy nag un iaith, twrnamaint gwyddbwyll byd a diwrnodau i ddathlu'r diwylliannau a gynrychiolir yn yr ysgol, yn helpu dysgwyr i ddatblygu i fod yn 'ddinasyddion byd-eang', sy'n gallu gwerthfawrogi a dathlu gwahaniaethau a thebygrwydd ar draws y gwahanol ddiwylliannau a gynrychiolir yn yr ysgol.

Roedd tua 30% o'r ysgolion a ymatebodd i'n harolwg yn addysgu ieithoedd heblaw Ffrangeg, Almaeneg neu Sbaeneg. Roedd y rhain yn cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu Eidaleg, Lladin a Mandarin, yn aml trwy weithgareddau allgyrsiol.

### Addysgu Lladin i ddatblygu dealltwriaeth ieithyddol

Mae **Ysgol Gyfun Gŵyr, Abertawe**, wedi llwyddo i integreiddio Lladin fel offeryn gwerthfawr i ehangu dealltwriaeth disgyblion o ieithoedd rhyngwladol, gan feithrin ymwybyddiaeth ramadegol, datblygu geirfa, lluosieithrwydd a hyder ieithyddol. Mae Lladin, a gynigir fel pwnc allgyrsiol, ar gael i bob un o'r disgyblion sydd â diddordeb, ac mae disgyblion Blwyddyn 8 yn dilyn cymhwyster lefel 1, a disgyblion Blwyddyn 9 yn symud ymlaen i astudio Lladin TGAU. Mae gan fyfyrwyr y chweched dosbarth opsiwn hefyd i astudio Lladin Safon Uwch, gan sicrhau parhad a her ar gyfer ieithyddion mwy datblygedig. Mae athrawon wedi sylwi ar y modd y mae dysgu Lladin yn cefnogi caffael ieithoedd modern trwy atgyfnerthu strwythurau gramadegol ac etymoleg, gan helpu creu cysylltiadau rhwng ieithoedd sy'n deillio o Ladin fel Ffrangeg, Sbaeneg ac Eidaleg. Mae llawer o fyfyrwyr sy'n ymgysylltu â Lladin yn parhau i astudio ieithoedd rhyngwladol mewn TGAU a thu hwnt, sy'n dangos effaith tymor hirach yr ysgol ar hyfedredd amlieithog a brwdfrydedd dros ddysgu ieithoedd.

Roedd ychydig o'r ysgolion uwchradd yn ein sampl yn cynnig cyfle i ddysgu mwy nag un iaith ryngwladol, fel Ffrangeg ac Almaeneg ym Mlynyddoedd 7-9 a thu hwnt. Roedd yr ysgolion hyn yn annog ieithyddion deuol trwy amrywiaeth o lwybrau arloesol a modelau cwricwlwm, gyda graddau amrywiol o lwyddiant. Roedd ychydig o ysgolion wedi dewis addysgu'r ddwy iaith o fewn eu cwricwlwm Blynyddoedd 7-9, tra bod ysgolion eraill yn cynnig sesiynau rhagflas allgyrsiol mewn ymgais i gyflwyno addysgu ffurfiol yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, roedd ysgolion hefyd yn wynebu heriau i gynnal eu darpariaeth ar gyfer ieithyddion deuol oherwydd cyfyngiadau amser, a oedd yn golygu bod disgyblion yn gwneud cynnydd amrywiol a bod niferoedd cyfyngedig yn astudio ieithoedd yng nghyfnodau allweddol 4 a 5. Mewn sawl ysgol, roedd y cwricwlwm ar gyfer ieithyddion deuol yn cael ei dargedu'n benodol at ddisgyblion mwy abl. Roedd y

modelau cwricwlwm mwyaf llwyddiannus ar gyfer ieithyddion deuol yn amlygu disgyblion i'r ddwy iaith mor gynnar ag y bo modd ac roedd digon o amser yn cael ei neilltuo ar gyfer y ddwy iaith. Roedd ysgolion a oedd yn canolbwyntio ar gynllunio ar gyfer dilyniant yn helpu disgyblion sy'n astudio mwy nag un iaith ym Mlynyddoedd 7-9 i barhau â'r ddwy yn effeithiol mewn TGAU a thu hwnt.

### Cefnogi datblygiad ieithyddion deuol

Mae **Ysgol Y Bont-faen, Bro Morgannwg**, wedi datblygu model effeithiol ar gyfer cynorthwyo ieithyddion triphlyg, gan alluogi disgyblion i astudio dwy iaith ryngwladol a'r Gymraeg â hyder a llwyddiant. Cyflawnir hyn trwy gynllunio cwricwlwm strategol, llwybrau dilyniant cyflym, a chyfleoedd cyfoethogi helaeth. Mae cynllunio cwricwlwm sydd wedi'i strwythuro'n ofalus yn sicrhau bod disgyblion yn adeiladu ar fedrau dysgu ieithoedd blaenorol pan fyddant yn dechrau astudio eu hail iaith ryngwladol ym Mlwyddyn 8. Mae athrawon yn cynllunio'n fwriadol ar gyfer cynnydd carlam trwy sicrhau bod disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Mae disgyblion yn dehongli ynganiad, geirfa a strwythurau gramadegol yn annibynnol. Mae cymhwyso ymarferol yn greiddiol, gydag athrawon yn annog siarad digymell ac yn arwain disgyblion oddi wrth strwythurau syml at frawddegau mwy cymhleth erbyn diwedd eu blwyddyn astudio gyntaf yn eu hail iaith ryngwladol. Nod rhaglen helaeth o weithgareddau cyfoethogi yw ymestyn dealltwriaeth ieithyddol a diwylliannol disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau ffilm, cystadlaethau rhyngwladol fel her GCHQ, sioeau teithiol gyrfaoedd, a thripiau addysgol i Ffrainc a'r Almaen. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod disgyblion nid yn unig yn datblygu rhuglder mewn dwy iaith ryngwladol, ond hefyd yn ennill ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

## Amser cwricwlwm

Nid oedd y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelom â nhw yn neilltuo digon o amser cwricwlwm i ieithoedd rhyngwladol, yn enwedig ym Mlynyddoedd 7-9. Yn yr ysgolion hyn, dywedodd athrawon wrthym am y modd y gall amser cwricwlwm cyfyngedig effeithio ar gynnydd disgyblion a nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau TGAU. Dywedodd tua hanner yr athrawon a'r arweinwyr a ymatebodd i'n harolwg nad oedd eu hysgol yn neilltuo digon o amser cwricwlwm i ieithoedd rhyngwladol.

Ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelom â nhw, dim ond tair awr bob pythefnos o wersi ieithoedd rhyngwladol oedd yn cael eu darparu. Fodd bynnag, mewn ychydig o ysgolion, roedd disgyblion yn derbyn cyn lleied â 50 i 60 munud yr wythnos, a oedd yn cyfyngu'n ddifrifol ar allu disgyblion i wneud cynnydd digonol. Mewn ychydig o achosion, roedd cynnydd strwythuredig yn yr amser a neilltuir ym Mlwyddyn 9 i helpu paratoi disgyblion ar gyfer arholiadau TGAU. Mewn ychydig iawn o ysgolion, roedd ieithyddion deuol yn derbyn model rhanedig ym Mlwyddyn 8 neu 9, gyda'r naill iaith a'r llall yn derbyn hanner yr amser cwricwlwm sydd ar gael. Fodd bynnag, roedd hyn yn arwain at gynnydd cyfyngedig yn y ddwy iaith, a nifer y disgyblion sy'n astudio ieithoedd rhyngwladol ar gyfer TGAU yn wan. Mewn ychydig iawn o ysgolion yn ein sampl, dim ond tair awr bob

pythefnos oedd yn cael ei neilltuo ar gyfer disgyblion a oedd yn astudio ieithoedd rhyngwladol mewn TGAU. Dywedodd athrawon yn yr ysgolion hyn nad oedd disgyblion yn gwneud cynnydd cystal ag y gallent, yn enwedig mewn siarad ac ysgrifennu, gan eu bod yn cael eu hamlygu cyn lleied i'r iaith darged. Yn yr ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd yn glir fod disgyblion yn gwneud cynnydd gwell, ar y cyfan, pan roedd arweinwyr yn neilltuo amser priodol i ieithoedd rhyngwladol o fewn eu cwricwlwm.

## Lluosieithrwydd

Mae cynnwys ieithoedd rhyngwladol yn rhan o MDPh ILlCh yn darparu cyfrwng i ysgolion annog lluosieithrwydd, cysylltiadau ar draws ieithoedd, a datblygu dulliau cyffredin o ran sut mae pynciau unigol yn cefnogi datblygiad medrau iaith a llythrennedd disgyblion. Mewn llawer o ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd cydweithio cryf rhwng ieithoedd rhyngwladol, adrannau Cymraeg a Saesneg. Yn yr ysgolion hyn, gwelom y canlynol:

- cynllunio cydlynus rhwng ieithoedd rhyngwladol, adrannau Cymraeg a Saesneg, i gefnogi dulliau addysgu cyson a therminoleg ar y cyd ar gyfer addysgu gramadeg ar draws MDPh ILlCh
- ffocws bwriadol ar ddatblygu lluosieithrwydd a chysylltiadau trawsieithyddol, a oedd yn helpu disgyblion i greu cysylltiadau rhwng ieithoedd a gwerthfawrogi gwahanol lefelau o hyfedredd iaith
- ymagwedd MDPh gyffredin at ddatblygu medrau llafaredd disgyblion; er enghraifft, roedd ychydig o ysgolion yn ymgorffori ffocws cryf ar lafaredd fel sylfaen ar gyfer dysgu ieithoedd, gan sicrhau bod hyn yn cyd-fynd â phwyslais y MDPh ar ddatblygu medrau cyfathrebu ar lafar
- enghreifftiau o athrawon yn cynllunio ymagweddau ar y cyd at ddatblygu medrau darllen disgyblion, gan atgyfnerthu medrau a strategaethau dysgu ieithoedd cyffredin ar draws ILlCh

### Ymagweddau cyffredin ar draws ILlCh at ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion

Mae **Ysgol Aberconwy, Conwy**, wedi datblygu ymagwedd gydweithredol at addysgu a dysgu o fewn MDPh ILlCh, gan sicrhau bod disgyblion yn profi datblygiad medrau cyson ar draws pynciau. Mae athrawon yn gweithio'n agos ar draws y MDPh i gynllunio teithiau dysgu ar y cyd, gan weddu dulliau addysgu a therminoleg i gefnogi medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu disgyblion. Mae ymagwedd gyffredin at addysgu strategaethau darllen a dilyniant addysgu ar y cyd ar gyfer ysgrifennu wedi cael eu hymgorffori ar draws y MDPh, gan alluogi disgyblion i gymhwyso'u medrau llythrennedd â mwy o hyder ac annibyniaeth. Mae'r ysgol hefyd wedi ymgorffori strategaethau cyffredin i wella llafaredd, gan sicrhau bod disgyblion yn datblygu i fod yn siaradwyr huawdl a myfyriol. Mae'r dull strwythuredig a chydgysylltiedig hwn wedi cael effaith nodedig ar gyflawniad disgyblion mewn ieithoedd rhyngwladol.

Er bod Cwricwlwm i Gymru wedi cael ei roi ar waith, mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd ieithoedd rhyngwladol yn parhau i fod yn gymharol ynysig o ran cynllunio cwricwlwm IllCh yn ehangach. Nid oedd gan lawer o ysgolion ymagweddau ar y cyd at ddysgu ieithoedd, gan arwain at anghysondebau yn y modd yr oedd disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar draws Saesneg, Cymraeg ac ieithoedd rhyngwladol. Er bod rhai ysgolion wedi ceisio creu cysylltiadau rhwng ieithoedd, yn aml, roedd y rhain ar sail ad-hoc yn hytrach na thrwy gynllunio'r cwricwlwm yn strwythuredig.

### Cynllunio ar gyfer dilyniant

Amlygodd ein hymweliadau ag ysgolion ei bod yn bwysig cynllunio'n effeithiol ar gyfer dilyniant mewn dysgu. Roedd ychydig o ysgolion wedi datblygu modelau dilyniant strwythuredig a oedd, ochr yn ochr ag addysgu effeithiol, yn cyfrannu'n gryf at sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn systematig. Er enghraifft, mewn llawer o ysgolion, roedd athrawon yn canolbwyntio ar ddatblygu llafaredd disgyblion ym Mlwyddyn 7 ac wedyn yn cyflwyno mwy o ddatblygiad darllen ac ysgrifennu yn gynyddrannol ym Mlynyddoedd 8 a 9. Yn ein trafodaethau ag athrawon a disgyblion, roedd yn glir fod ffocws ar fagu hyder mewn llafaredd cyn datblygu annibyniaeth mewn ysgrifennu yn fuddiol. Roedd ychydig o ysgolion yn strwythuro'u cwricwlwm Blwyddyn 7-9 i gefnogi'r cyfnod pontio i TGAU, gan sicrhau bod disgyblion yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer disgwyliadau cyfnod allweddol 4.

#### Cynllunio ar gyfer cynnydd

Mae arweinwyr yn **Ysgol Gyfun Heolddu, Caerffili** wedi datblygu taith ddysgu glir a strwythuredig ar gyfer ieithoedd rhyngwladol, gan sicrhau bod disgyblion yn adeiladu ar eu profiadau yn y sector cynradd ac yn symud ymlaen yn llwyddiannus i astudio ôl-16. Mae'r map trywydd hwn yn amlinellu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth allweddol sy'n ddisgwyliedig ym mhob cyfnod, gan greu model dilyniant cydlynol o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 13.

Mae dull cwricwlwm troellog yn galluogi disgyblion i ailedrych ar eirfa a gramadeg, a'u hymestyn, gan atgyfnerthu dysgu blaenorol tra'n cynyddu lefel yr her, hefyd. Caiff y cwricwlwm ei gyfoethogi trwy brofiadau byd go iawn, gan gynnwys cyfnewidiadau rhwng ffrindiau gohebol, ymweliadau diwylliannol, a phartneriaethau â rhaglenni mentoriaid prifysgol, lle mae disgyblion yn ymarfer a chymhwyso'u medrau. Mae asesu yn ddatblygiadol, ac mae gwiriadau cynnydd ac adborth llafar yn sicrhau bod disgyblion yn deall eu cynnydd dros gyfnod. Mae'r ymagwedd strategol hon at gynllunio wedi arwain at hyfedredd a chymhelliant cynyddol, gan arfogi disgyblion ar gyfer dysgu ieithoedd yn y dyfodol.

Pan roedd y cynllunio ar gyfer dilyniant yn llai llwyddiannus, roedd cynllunio anghyson ar gyfer cynnydd ym Mlynyddoedd 7-9 yn arwain at fylchau mewn dysgu a datblygiad medrau digysylltiad. Roedd amser cwricwlwm cyfyngedig mewn llawer o ysgolion yn rhwystro cynnydd disgyblion yn sylweddol, gan ei gwneud yn anodd i ddisgyblion ddatblygu rhugldeb a'r hyder i barhau â dysgu ieithoedd ym Mlynyddoedd 10 ac 11.

### Yn gryno

- Roedd bron pob un o’r ysgolion uwchradd yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion astudio iaith ryngwladol ym Mlynyddoedd 7-9, ond roedd amser cwricwlwm yn aml yn gyfyngedig, a oedd yn rhwystro cynnydd disgyblion.
- Ffrangeg oedd yr iaith sy’n cael ei haddysgu amlaf o hyd, wedi’i dilyn gan Sbaeneg ac Almaeneg, ac roedd lleiafrif o ysgolion yn cynnig ieithoedd ychwanegol fel Lladin, Eidaleg, neu Fandarin, yn aml trwy lwybrau allgyrsiol.
- Roedd y ddarpariaeth ar gyfer ieithyddion deuol yn gyfyngedig, yn aml wedi’i thargedu at ddisgyblion mwy abl. Prin oedd yr ysgolion sy’n cynnig cyfleoedd cynaledig i astudio dwy iaith oherwydd cyfyngiadau amser a phwysau’r cwricwlwm.
- Roedd cydweithio cynyddol ar draws MDPh ILlCh mewn rhai ysgolion, lle roedd athrawon yn cynllunio ymagweddau ar y cyd at fedrau llafaredd, gramadeg a llythrennedd ar draws Saesneg, Cymraeg ac ieithoedd rhyngwladol.
- Roedd cynllunio ar gyfer dilyniant yn anghyson, ac roedd diffyg parhad ac adeiladu ar ddysgu blaenorol o’r sector cynradd.

## Dysgu ac addysgu ieithoedd rhyngwladol yn y sector uwchradd

Yn yr ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd disgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn ieithoedd rhyngwladol pan roedd y cwricwlwm wedi’i strwythuro’n dda ac roedd yr addysgu yn gyson effeithiol. Roedd y rhan fwyaf o’r ysgolion yr ymwelom â nhw yn elwa ar gael athrawon arbenigol pynciau yn eu hadrannau ieithoedd rhyngwladol. Adlewyrchir hyn yn eang mewn cofnodion a ddelir gan Gyngor y Gweithlu Addysg, sy’n datgan bod 88% o athrawon ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru yn 2024 wedi hyfforddi yn eu pwnc.

### Gwybodaeth ac adnoddau pwnc

Roedd llawer o athrawon a arsylwom yn meddu ar wybodaeth bynciol gref a dealltwriaeth o addysgeg effeithiol ar gyfer addysgu ieithoedd. Roedd tua hanner yr ysgolion yn defnyddio dulliau addysgu hynod ryngweithiol, gan wneud gwersi ieithoedd rhyngwladol yn fywiog a difyr. Yn y gwersi hyn, roedd athrawon yn defnyddio amrywiaeth o weithgareddau, fel gemau, caneuon, gwaith grŵp a senarios chwarae rôl, a oedd yn annog rhyngweithio ac yn atgyfnerthu defnydd digymell o’r iaith darged. Mae hyn yn adlewyrchu’r arfer fwyaf effeithiol a arsylwom hefyd yn y sector cynradd, ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd addysgu o ansawdd uchel i ddeilliannau disgyblion.

Mewn ychydig o ysgolion, roedd technoleg yn cael ei defnyddio’n effeithiol i ymestyn dysgu ac ymgysylltu â disgyblion. Roedd enghreifftiau o ddefnyddio technoleg yn effeithiol yn cynnwys:

- defnyddio cwisiau rhyngweithiol ar-lein, a oedd yn cefnogi cadw geirfa a’i galw i gof
- defnyddio adnoddau amlgyfrwng, fel fideos, podlediadau ac ymarferion ar-lein, i atgyfnerthu cysyniadau allweddol ac amlygu disgyblion i brofiadau diwylliannol bywyd go iawn mewn gwledydd ieithoedd targed

- athrawon yn dechrau arbrofi â chynnwys wedi'i gynhyrchu trwy ddeallusrwydd artiffisial (AI), a oedd yn creu adnoddau dysgu personoledig, gan helpu disgyblion i ymgysylltu â deunyddiau sy'n berthnasol i lefel eu cynnydd.

Roedd technoleg yn cael ei defnyddio ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelom â nhw, ond roedd effaith offer digidol ar ddysgu yn anghyson. Mewn ychydig o ysgolion, roedd gweithgareddau sy'n defnyddio technoleg yn golygu bod disgyblion yn rhy oddefgar. Yn ychwanegol, nid oedd ychydig o ysgolion yn buddsoddi mewn adnoddau digidol i gefnogi ieithoedd rhyngwladol, gan olygu bod disgyblion yn dibynnu'n bennaf ar werslyfrau yn hytrach na gallu manteisio ar offer amlgyfrwng amrywiol.

Mewn ychydig o ysgolion, roedd adnoddau dilys yn cael eu gwreiddio yn y cwricwlwm, gan helpu disgyblion i ymgysylltu â defnyddio iaith y byd go iawn. Er enghraifft, mewn llawer o ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd athrawon yn defnyddio erthyglau newyddion cyfoes, detholiadau o lenyddiaeth, ac adnoddau diwylliannol, gan amlygu disgyblion i ystod o destunau a chyd-destunau byd go iawn. Yn yr ysgolion hyn, roedd disgyblion yn cael eu hannog i ymgysylltu â cherddoriaeth, ffilm, a chynnwys teledu yn yr iaith darged, gan gynyddu eu hamlygiad i batrymau siarad naturiol ac ymadroddion idiomatig. Yn yr ysgolion lle nad oedd hyn yn wir, dywedodd disgyblion wrthym fod gwersi ieithoedd rhyngwladol yn canolbwyntio'n bennaf ar ddeialogau gwerslyfrau artiffisial, yn hytrach na darparu enghreifftiau realistig o iaith sgyrsiol.

### Datblygu medrau llafaredd disgyblion

Yn yr ystafelloedd dosbarth ieithoedd rhyngwladol mwyaf llwyddiannus, roedd athrawon yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau dysgu ieithoedd disgyblion yn effeithiol. Yn y gwersi hyn, roedd athrawon yn hyrwyddo pwysigrwydd medrau llythrennedd yn eglur. Roedd hyn yn helpu disgyblion i greu cysylltiadau ystyrlon â phynciau eraill a deall sut roedd dysgu iaith ryngwladol yn eu helpu i wella'u medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu.

Mae medrau llafaredd yn hanfodol ar gyfer rhuglder, hyder a defnyddio iaith yn ddigymell mewn ieithoedd rhyngwladol. Mewn llawer o ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd disgyblion yn hyderus yn eu medrau siarad ac roeddent yn dechrau siarad yn annibynnol a gyda rhywfaint o ruglder, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4. Roedd y disgyblion hyn yn adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol, gan ddangos medrau cryf wrth alw i gof, a'r gallu i ddefnyddio a thrin iaith yn annibynnol.

Mewn ychydig o ysgolion, roedd athrawon yn defnyddio'r iaith darged yn gyson trwy gydol eu gwers, gan greu amgylchedd dysgu trochol. Yn yr ysgolion hyn:

- roedd athrawon yn darparu cyfleoedd strwythuredig a rheolaidd i amlygu disgyblion i'r iaith darged, gan olygu bod disgyblion yn dod yn gyfarwydd â chlywed a phrosesu iaith lafar ddilys
- roedd athrawon yn defnyddio'r iaith darged ar gyfer esboniadau a chyfarwyddiadau, a oedd yn ymestyn medrau gwrando disgyblion ac yn cefnogi eu gallu i ymateb yn ddigymell

- roedd athrawon yn integreiddio'r iaith darged mewn arferion ystafell ddosbarth dyddiol, gan annog disgyblion i ryngweithio'n naturiol a magu hyder wrth ddefnyddio'r iaith darged eu hunain
- roedd athrawon yn modelu ynganu, ac yn defnyddio ailadrodd ac adborth i helpu disgyblion i wella'u dealltwriaeth o'r patrymau ffonolegol yn yr iaith darged, lle bo'n briodol

Ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd yr iaith darged yn cael ei defnyddio'n anghyson, gan gyfyngu ar amlygu disgyblion i iaith lafar. Yn yr ysgolion hyn, roedd athrawon yn aml yn modelu'r iaith darged yn dda ond byddent yn dychwelyd yn rhy gyflym at y Saesneg neu'r Gymraeg i gael esboniadau ac adborth, gan leihau'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau gwrando a meddwl. Yn yr un modd, buom yn arsylwi athrawon a oedd yn annog disgyblion i ymateb yn yr iaith darged, ond nid oedd hyn yn cael ei orfodi'n gyson, a oedd yn golygu bod disgyblion yn troi at y Saesneg neu'r Gymraeg yn rhy gyflym. Mewn ychydig o ysgolion, anaml oedd yr iaith darged yn cael ei defnyddio mewn gwersi, gan rwystro medrau gwrando a siarad disgyblion yn sylweddol. Roedd yr ysgolion hyn yn canolbwyntio'n rhy helaeth ar gywirdeb ysgrifenedig ar draul datblygu llafaredd disgyblion, a oedd yn golygu bod disgyblion yn datblygu medrau darllen ac ysgrifennu, ond nid oeddent yn hyderus ac roeddent yn cael trafferth â chyfathrebu ar lafar.

Mewn ychydig o ysgolion, roedd athrawon yn darparu tasgau siarad strwythuredig a graddol, gan sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau siarad dros gyfnod. Roedd yr athrawon hyn yn sgaffaldio tasgau llafaredd yn effeithiol, gan symud oddi wrth sgyrsiau strwythuredig i siarad yn fwy annibynnol, gan gefnogi dilyniant tuag at ddefnydd digymell o'r iaith darged.

### Datblygu siarad digymell

Mae **Ysgol Y Bont-faen, Bro Morgannwg**, wedi rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu gallu disgyblion i siarad yn ddigymell, gan symud oddi wrth orddibyniaeth ar sgaffaldiau a thasgau estynedig wedi'u dysgu ymlaen llaw. Ymgorfforir tasgau siarad ym mhob gwers, ac fe gaiff disgyblion eu hannog i ddefnyddio geirfa a ddysgwyd yn y gorffennol i ymestyn eu hymatebion. Mae athrawon yn cyflwyno holi strwythuredig, gan ddechrau â chwestiynau caeedig i fagu hyder cyn symud ymlaen i ymatebion hirach, penagored. Caiff disgyblion eu haddysgu i gysylltu strwythurau iaith yn annibynnol, gan ddefnyddio ymadroddion fel 'on doit' (rhaid i chi) neu 'man kann' (gallwch chi) i ffurfio brawddegau gwreiddiol. O Flwyddyn 7, mae disgyblion yn datblygu medrau geiriadur ar-lein, gan eu galluogi i bersonoli eu defnydd iaith. Mae amgylchedd ystafell ddosbarth cefnogol yn sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n hyderus i fentro. Mae athrawon yn defnyddio canmoliaeth a chywiro yn effeithiol, gan atgyfnerthu bod camgymeriadau yn rhan naturiol o ddysgu. Mae'r dull strwythuredig ac anogol hwn yn magu hyder, yn meithrin digymhellrwydd, ac yn arfogi disgyblion â'r medrau i gyfathrebu'n naturiol yn yr iaith darged.

Dull llwyddiannus arall a arsylwom oedd defnyddio gweithgareddau ‘bwlch cyfathrebu’, lle roedd rhaid i ddisgyblion gyfnewid gwybodaeth gan ddefnyddio’r iaith darged yn unig, gan hyrwyddo ymgysylltiad a datrys problemau. Yn ein harsylwadau a’n trafodaethau, y mathau hyn o weithgareddau oedd yn achosi i ddisgyblion gael lefelau gwell o hyder a chymhwysedd wrth siarad. Yn yr ysgolion hyn, roedd athrawon yn blaenoriaethu hyder, ac wedyn yn canolbwyntio ar fireinio cywirdeb. Roedd hyn yn annog disgyblion i fentro mewn gweithgareddau siarad ac i beidio â phoeni gormod am wneud camgymeriadau.

Mewn mwyafrif o’r ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd tasgau siarad yn cael eu cynnwys mewn gwersi, ond roedd disgyblion yn aml yn dibynnu’n ormodol ar sgaffaldiau ac iaith lafar wedi’u dysgu ymlaen llaw. Roedd athrawon yn rhy barod i dderbyn hyn ac yn aml yn gwneud ychydig iawn o ymgais i gael gwared ar unrhyw gymorth. O ganlyniad, roedd llawer o ddisgyblion yn ei chael yn anodd rhyngweithio’n naturiol. Mewn ychydig o ysgolion, nid oedd cynllunio ar gyfer medrau siarad disgyblion wedi’i ddatblygu’n ddigonol, ac roedd disgyblion yn cael cyfleoedd cyfyngedig i ymarfer. Yn yr ysgolion hyn, roedd disgyblion yn teimlo nad oeddent wedi cael eu paratoi’n ddigonol ar gyfer asesiadau siarad.

## Datblygu medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion

Mae darllen yn fedr pwysig arall mewn dysgu ieithoedd rhyngwladol, cefnogi datblygiad geirfa, amgyffrediad a chywirdeb gramadegol. Mewn tua hanner yr ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd disgyblion yn arddangos medrau darllen a deall priodol, er enghraifft i ddod o hyd i wybodaeth, a’i lleoli, mewn testunau iaith darged. Mewn ychydig o achosion, roedd disgyblion yn ymgysylltu â thestunau cynyddol gymhleth. Pan roeddent yn cael eu herio, roedd disgyblion yn defnyddio’u medrau darllen datblygedig yn dda, gan gynnwys crynhoi, ymresymu a dod i gasgliad, yn enwedig mewn dosbarthiadau TGAU a Safon Uwch. Yn yr ysgolion hyn, roedd athrawon yn addysgu strategaethau darllen yn eglur, fel llithrddarllen, sganio a dod i gasgliad, a oedd yn sicrhau bod disgyblion yn ymgysylltu’n fwy effeithiol â thestunau.

Mewn sawl ysgol, roedd tasgau darllen a deall yn cael eu defnyddio’n rheolaidd, ond nid oeddent bob amser yn ddigon heriol. Mewn rhai achosion, roedd amlygu disgyblion i wahanol fathau o destun yn gyfyngedig, gan gyfyngu ar eu gallu i ddatblygu strategaethau ar gyfer mynd i’r afael â thestunau mwy cymhleth neu anghyfarwydd. Yn yr ysgolion hyn, nid oedd athrawon yn addysgu strategaethau darllen yn systematig, ac roeddent yn cynnig cyfieithu i’r Saesneg neu’r Gymraeg yn gyflym, yn hytrach nag annog disgyblion i ddefnyddio ystod o strategaethau i weithio allan ystyr geiriau ac ymadroddion, wrth ddarllen testunau iaith darged.

Mae ysgrifennu yn gofyn i ddisgyblion gymhwyso gramadeg, geirfa, a strwythurau brawddeg yn gywir ac yn annibynnol. Mewn llawer o’r ysgolion yr ymwelom â nhw, arsylwom ddisgyblion a oedd yn datblygu medrau ysgrifennu cadarn ac a oedd yn gallu ffurfio ymatebion annibynnol, estynedig. Yn yr ysgolion hyn, roedd athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gynhyrchu tasgau ysgrifennu estynedig a oedd yn gofyn iddynt gymhwyso’r strwythurau gramadegol yr oeddent wedi eu dysgu’n

annibynnol. Roedd yr athrawon mwyaf medrus yn dileu sgaffaldiau yn raddol, gan sicrhau bod disgyblion yn datblygu hyder mewn ysgrifennu'n annibynnol heb ddibynnu'n ormodol ar fodelau. Mewn ychydig o achosion, roedd athrawon yn annog disgyblion i fentro yn eu hysgrifennu, gan eu galluogi i arbrofi â gwahanol amserau a strwythurau cyn mireinio cywirdeb yn ddiweddarach.

Mewn ychydig o ysgolion, roedd disgyblion yn cymhwyso gramadeg â lefel uwch o gywirdeb, gan ddangos dealltwriaeth a rheolaeth dros wahanol amserau a strwythurau brawddeg. Roedd ychydig o ysgolion yn integreiddio addysgu gramadeg mewn tasgau ysgrifennu pwrpasol, gan olygu bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gref o rediadau berfau a chystrawen. Trwy ddysgu ac wedyn ymarfer gwahanol gystrawennau brawddeg yn annibynnol wrth siarad ac ysgrifennu, roeddent yn deall sut gall gwybodaeth am ramadeg gyfoethogi eu defnydd eu hunain o'r iaith darged.

### Addysgu gramadeg yn ei chyd-destun

Mae **Ysgol Gyfun Dŵr-Y-Felin, Castell-nedd Port Talbot**, wedi datblygu ymagwedd effeithiol a phwrpasol at addysgu gramadeg, gan sicrhau bod disgyblion yn cymhwyso strwythurau gramadegol yn naturiol ac yn eu cyd-destun, yn hytrach na'u dysgu ar wahân. Mae athrawon yn integreiddio addysgu gramadeg o fewn defnydd iaith ystyrlon, gan ganolbwyntio ar batrymau a datrys problemau. Caiff disgyblion eu hannog i adnabod strwythurau gramadegol o fewn brawddegau dilys, gan atgyfnerthu rhediadau berfau trwy fodelu ac arferion rheolaidd. Mae hyn yn galluogi disgyblion i newid yn hyderus rhwng amserau. Cyflwynir gramadeg pan fydd yn codi'n naturiol, yn hytrach na fel testun ar wahân, gan sicrhau bod disgyblion yn gweld ei berthnasedd mewn tasgau llafaredd, darllen ac ysgrifennu. Trwy ymgorffori gramadeg mewn cyfathrebu go iawn ochr yn ochr â ffocws pwrpasol ar lafaredd, mae disgyblion yn datblygu sylfaen ieithyddol gref, gan gymhwyso'u gwybodaeth â chywirdeb a rhuglder.

Mewn mwyafrif o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd disgyblion yn datblygu dealltwriaeth ramadegol ond yn cael trafferth cymhwyso rheolau'n gyson. Mewn sawl ysgol, roedd athrawon yn darparu sgaffaldiau defnyddiol i gefnogi cywirdeb gramadegol, ond o bryd i'w gilydd, roedd hyn yn atal disgyblion rhag arbrofi â strwythurau newydd yn annibynnol. Mewn ychydig o ysgolion, nid oedd disgyblion yn datblygu dealltwriaeth glir o strwythurau brawddeg. Yn aml, roeddent yn dibynnu gormod ar ymadroddion wedi'u dysgu ar y cof, gan olygu bod diffyg hyblygrwydd yn eu hysgrifennu, a diffyg gallu i ddefnyddio iaith mewn gwahanol gyd-destunau.

Problem gyffredin mewn siarad ac ysgrifennu oedd yr orddibyniaeth ar sgaffaldio a'r cyfleoedd cyfyngedig i siarad ac ysgrifennu'n annibynnol. Lle'r oedd hyn yn digwydd, roedd gormod o ddibyniaeth ar offer wedi'i gynllunio i helpu disgyblion i ffurfio brawddegau fformiwläig. Er bod yr offer hwn yn gallu bod yn ddefnyddiol ar gyfer dysgu ieithoedd, nid oedd athrawon bob amser yn ystyried yn ddigon agos sut a phryd i leihau'r cymorth hwn yn raddol i ddisgyblion.

## Asesu

Yn ystod mwyafrif o'n hymweliadau ag ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed, arsylwom enghreifftiau o asesu ffurfiannol yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Mewn ychydig o ysgolion, roedd athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau asesu yn dda. Er enghraifft, roedd hunanasesiadau ac asesiadau cyfoedion a gweithgareddau ymateb dosbarth cyfan trwy ddefnyddio byrddau gwyn bach, yn helpu sicrhau bod athrawon a disgyblion yn deall yr hyn oedd angen iddynt ei wella. Roedd yr athrawon hyn yn defnyddio strategaethau ymarfer adalw, gan sicrhau bod disgyblion yn galw i gof strwythurau gramadegol a geirfa allweddol dros gyfnod, ac yn eu cymhwyso. Yn yr ysgolion hyn, roedd athrawon yn aml yn darparu adborth ffurfiannol buddiol, gan alluogi disgyblion i fyfyrio ar eu cynnydd a chymryd mwy o berchnogaeth o'u dysgu.

Pan roedd strategaethau asesu yn llai llwyddiannus, gwelom:

- nad oes unrhyw gamau nesaf clir ar gyfer gwella yn adborth athrawon
- bod gorddibyniaeth ar farcio dosbarth cyfan nad oedd yn rhoi adborth unigol manwl gywir i ddisgyblion
- ychydig iawn o adborth ar fedrau llafaredd disgyblion
- adborth anghyson a oedd yn golygu nad oedd athrawon yn sylwi ar fylchau yng ngwybodaeth disgyblion

Yn gyffredinol, roedd yr ysgolion yr ymwelom â nhw yn defnyddio asesu ffurfiol yn effeithiol i helpu paratoi disgyblion ar gyfer arholiadau TGAU a Safon Uwch. Mae deilliannau mewn TGAU a Safon Uwch yn genedlaethol yn parhau i fod uwchlaw'r cyfartaledd mewn pynciau eraill.

### Yn gryno

- Roedd ansawdd yr addysgu yn amrywio, ond yn y rhan fwyaf o ysgolion effeithiol, roedd athrawon yn defnyddio strategaethau rhyngweithiol a difyr—fel gemau, chwarae rôl, a deunyddiau dilys—i fagu hyder disgyblion a meithrin eu mwynhad mewn dysgu.
- Roedd llafaredd yn cael ei flaenoriaethu mewn llawer o ysgolion, ond roedd disgyblion yn dibynnu'n ormodol ar sgaffaldiau a siarad wedi'i ddysgu ar gof, gan gyfyngu ar eu gallu i siarad yn ddigymell ac yn rhugl yn yr iaith darged.
- Roedd medrau darllen ac ysgrifennu yn cael eu datblygu'n llai cyson, ac roedd rhai ysgolion yn integreiddio gramadeg a thasgau ysgrifennu estynedig yn llwyddiannus, tra bod ysgolion eraill yn canolbwyntio'n rhy helaeth ar weithgareddau nad oeddent yn ddigon heriol.
- Roedd asesu ar gyfer dysgu yn gryf mewn ychydig o ysgolion, lle roedd athrawon yn defnyddio holi, adborth, ac arfer adalw yn effeithiol i gefnogi dilyniant.

# Hyrwyddo a deall pwysigrwydd dysgu ieithoedd

O’n trafodaethau â disgyblion, athrawon ac arweinwyr, mae’n glir fod hyrwyddo ieithoedd rhyngwladol yn effeithiol yn hanfodol wrth annog disgyblion i barhau i astudio ieithoedd mewn TGAU a thu hwnt. Mae ysgolion sy’n hyrwyddo ieithoedd rhyngwladol yn llwyddiannus yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ieithoedd. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn deall manteision bod yn amlieithog, yn darparu arweiniad clir ar yrfaoedd, ac yn cynnig cyfleoedd cyfoethogi sy’n ymestyn y cwricwlwm ac yn gwella cymhelliant a hyder disgyblion.

## Agweddau tuag at ddysgu ieithoedd

Yn yr ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd agweddau cadarnhaol disgyblion a’u hymgysylltiad â dysgu yn arwyddion pwysig o lwyddiant eu darpariaeth ieithoedd rhyngwladol. Yn ein trafodaethau â disgyblion, roedd yn glir, mewn ysgolion lle mae disgyblion yn mwynhau gwersi ac yn gweld perthnasedd dysgu ieithoedd, fod nifer y disgyblion sy’n astudio ieithoedd rhyngwladol mewn TGAU a Safon Uwch yn tueddu i fod yn uwch.

Yn y gwersi a arsylwom, roedd llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ieithoedd. Roedd y rhan fwyaf o’r disgyblion y siaradom â nhw yn cydnabod pwysigrwydd dysgu iaith ar gyfer cyfathrebu a chyflogadwyedd. Yn gyffredinol, roedd y disgyblion hyn yn mwynhau eu gwersi ac yn cydnabod manteision diwylliannol a chymdeithasol siarad iaith arall. Mewn ychydig o ysgolion, roedd brwdfrydedd disgyblion yn hynod gryf o ganlyniad i ddulliau difyr athrawon a defnydd o adnoddau amrywiol. Roedd y disgyblion hyn yn gwerthfawrogi’r pwnc yn fawr, a dywedon nhw wrthym ni eu bod yn mwynhau defnyddio’r ieithoedd y maent yn eu dysgu mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn, er enghraifft wrth deithio dramor neu ar y cyfryngau cymdeithasol. Mewn ychydig o ysgolion, roedd bod yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg yn dylanwadu’n gadarnhaol ar agweddau disgyblion tuag at ddysgu ieithoedd rhyngwladol ychwanegol.


Yn y rhan fwyaf o’r ysgolion yr ymwelom â nhw, cyfarfuom hefyd â disgyblion a ddywedodd wrthym ni, er eu bod yn mwynhau dysgu ieithoedd, fod rhwystrau a oedd yn eu hatal rhag gwneud hynny wrth iddynt dyfu’n hŷn. Roedd y rhwystrau hyn yn cynnwys:

- mewn llawer o achosion, roedd disgyblion yn amgyffred bod ieithoedd rhyngwladol yn llai perthnasol i’w dyheadau gyrfa, a rhai ohonynt yn credu bod medrau iaith yn ddefnyddiol ar gyfer dewis cyfyng o yrfaoedd yn unig
- mewn mwyafrif o ysgolion, nid oedd disgyblion yn deall yn llawn sut mae dysgu iaith yn datblygu medrau trosglwyddadwy, fel datrys problemau a meddwl yn feirniadol, i gefnogi cyflogadwyedd a chyfleoedd gyrfaoedd byd-eang
- mewn llawer o ysgolion, roedd disgyblion o’r farn fod ieithoedd rhyngwladol yn bynciau anodd, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4, lle roeddent yn amgyffred

bod gofyn dysgu llawer mewn cyfnod byr mewn TGAU
- roedd ychydig o ddisgyblion o'r farn fod gorfod astudio'r Gymraeg yn lleihau eu parodrwydd i astudio iaith arall, gan eu bod yn credu eu bod eisoes wedi ymrwymo i ddysgu iaith
- mae ychydig o ddisgyblion yn meddwl bod pawb yn siarad Saesneg beth bynnag

Gofynnom hefyd am farn athrawon ac arweinwyr yn y sector uwchradd ynglŷn â pham maent yn meddwl bod disgyblion yn dewis astudio ieithoedd rhyngwladol mewn TGAU a thu hwnt, trwy ein harolwg cenedlaethol.

**Siart 7: Y prif resymau y mae disgyblion yn dewis astudio ieithoedd mewn TGAU a thu hwnt**




Mae canrannau wedi'u seilio ar ddata gan 52 o ymatebwyr

Dywedodd yr athrawon a'r arweinwyr ieithoedd rhyngwladol uwchradd a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn meddwl mai un o'r prif resymau y mae disgyblion yn dewis astudio ieithoedd rhyngwladol yw oherwydd eu bod yn mwynhau'r pwnc. Cafodd y farn hon ei hadleisio gan y disgyblion y siaradom â nhw yn ystod ein hymweliadau, ac mae'n atgyfnerthu pwysigrwydd sicrhau bod gwersi ieithoedd rhyngwladol yn parhau i fod yn ddifyr trwy gydol pob cyfnod addysg. Roedd yr ail ymateb uchaf ynghylch rhagolygon gyrfa, sydd eto'n adlewyrchu barn disgyblion y buom yn cyfweld â nhw.


Gofynnom i athrawon ac arweinwyr yn y sector uwchradd hefyd beth oeddent yn meddwl oedd y prif resymau pam nad oedd disgyblion yn dewis astudio ieithoedd rhyngwladol mewn TGAU a thu hwnt:

- Crybwyllodd dros 40% o ymatebwyr yr amgyffrediad fod ieithoedd rhyngwladol yn rhy anodd. Roedd llawer ohonynt yn cysylltu'r sylw hwn â'r diffyg amser ym Mlynyddoedd 7-9 i feithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a lefelau hyder disgyblion.

- Dywedodd tua 30% o ymatebwyr fod yr arholiadau TGAU a Safon Uwch presennol eu hunain yn rhy anodd. Maent yn crybwyll yn benodol eu barn fod gormod o gynnwys a bod disgwyl i ddisgyblion ddysgu gormod mewn cyfnod byr wrth iddynt symud ymlaen i TGAU a thu hwnt.
- Soniodd tua thraean o ymatebwyr am gyfyngiadau canfyddedig y system opsiynau, yn enwedig y ffaith fod llai o opsiynau bellach y gall disgyblion ddewis o'u plith oherwydd cynnydd mewn elfennau gorfodol a nifer fawr y pynciau sydd ar gael i ddewis o'u plith.
- Crybwyllodd lleiafrif o ymatebion nad yw ieithoedd rhyngwladol yn cael eu hystyried yn bwysig nac yn werthfawr, neu fod disgyblion yn meddwl ei bod yn annhebygol y bydd angen iddynt eu siarad yn y dyfodol.
- Dywed ychydig ohonynt fod disgyblion yn dewis peidio ag astudio iaith ryngwladol oherwydd eu bod yn astudio'r Gymraeg mewn TGAU. O ganlyniad i hyn, mae disgyblion wedyn yn amharod i ddefnyddio un o blith eu nifer fach o ddewisiadau opsiynau ar iaith ychwanegol.

Dywedodd ychydig o athrawon ac arweinwyr yn y sector uwchradd fod agweddau negyddol rhieni a gofalwyr tuag at ddysgu ieithoedd rhyngwladol yn ffactor i'w ystyried. Nid oedd y farn hon yn cael ei rhannu gan y rhieni a'r gofalwyr a ymatebodd i'n harolwg. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod yr ymatebion i'n harolwg wedi dod o sampl hunanddewis[2].

**Siart 8: Barn rhieni a gofalwyr ynghylch p'un a yw hi'n bwysig i blant ddysgu ieithoedd rhyngwladol**




Mae canrannau wedi'u seilio ar ddata gan 719 o ymatebwyr

[2] Gweler yr adran Dulliau a sail y dystiolaeth.

Dywedodd 88.6% o'r 719 o rieni a gofalwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn eu bod yn ystyried ei bod yn bwysig i'w plant ddysgu ieithoedd rhyngwladol. Roedd rhai o'r rhesymau mwyaf cyffredin pam roedd rhieni'n meddwl bod hyn yn bwysig yn cynnwys:

- buddion gwybyddol dysgu iaith
- datblygu gwerthfawrogiad o ddiwylliannau eraill
- cyfleoedd gwell o ran cyflogaeth
- datblygu medrau cyfathrebu effeithiol
- cyfleoedd ar gyfer teithio rhyngwladol

Dywedodd sawl un o'r rhieni a'r gofalwyr prin a oedd yn meddwl nad oedd dysgu iaith ryngwladol yn bwysig eu bod yn ystyried ei fod yn ddiangen gan fod Saesneg yn cael ei siarad mor eang. Ymateb cyffredin arall oedd bod dim angen i'w plant astudio iaith ryngwladol gan eu bod eisoes yn astudio'r Gymraeg. Yn ychwanegol, crybwyllodd ychydig o rieni yr hoffent weld dewis ehangach o ieithoedd rhyngwladol yn cael eu cynnig mewn ysgolion, yn ogystal â gwelliant yn ansawdd yr addysgu.

Yn yr ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion a oedd wedi dewis astudio iaith mewn TGAU a thu hwnt yn hyderus yn eu medrau iaith, yn enwedig mewn siarad ac ysgrifennu. Mewn ychydig o ysgolion, roedd disgyblion yn deall sut roedd dysgu iaith yn eu helpu i ddatblygu datrys problemau, meddwl yn feirniadol a gwydnwch.

Dywedodd ychydig o ysgolion wrthym eu bod wedi gweld twf sylweddol yn nifer y disgyblion sy'n dewis astudio ieithoedd rhyngwladol mewn TGAU, yn dilyn ffocws strategol ar wella addysgu a dysgu ieithoedd.

### Cynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio ieithoedd rhyngwladol ar gyfer TGAU

Roedd arweinwyr yn **Ysgol Uwchradd Yr Eglwys Newydd, Caerdydd**, yn benderfynol o newid y gostyngiad cyson yn nifer y disgyblion yn dewis parhau i astudio Ffrangeg mewn TGAU. Cynhalion nhw adolygiad cynhwysfawr o addysgu, dysgu ac ymgysylltiad â gwersi iaith i nodi pam roedd disgyblion yn dewis peidio ag astudio ieithoedd rhyngwladol. Arweiniodd yr adolygiad hwn at newid sylweddol o ran sut roedd ieithoedd rhyngwladol yn cael eu haddysgu ar draws yr adran, gan arwain at ffocws cryfach ar lafaredd a gwella'r modd y mae disgyblion yn cadw geirfa a'i galw i gof. Hefyd, cyflwynodd arweinwyr ystod eang o weithgareddau cyfoethogi, fel sesiynau rhagflas mewn ieithoedd eraill ac ailgyflwyno tripiau i Ffrainc, i roi hwb i gymhelliant ac ymgysylltiad disgyblion. Mae'r ysgol hefyd wedi cynnal cynorthwyydd ieithoedd tramor yn yr adran i gefnogi rhuglder disgyblion ar lafar. Mae'r gwaith hwn wedi cynyddu ymgysylltiad disgyblion â dysgu ieithoedd rhyngwladol yn llwyddiannus. Mae wedi cael effaith gadarnhaol ar nifer y disgyblion sy'n dewis astudio Ffrangeg mewn TGAU, ac mae dau ddosbarth yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

## Codi proffil ieithoedd rhyngwladol

Yn ein trafodaethau â disgyblion a staff ysgolion, roedd yn glir fod ymgymryd â gweithgareddau allgyrsiol a chyfoethogi yn chwarae rôl allweddol mewn meithrin brwdfrydedd dros ieithoedd rhyngwladol. Yn yr ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd codi proffil ieithoedd rhyngwladol yn helpu i annog nifer y disgyblion sy'n astudio ieithoedd rhyngwladol ar gyfer TGAU, gan ymestyn cymhwyso yn y byd go iawn, a gwneud dysgu ieithoedd yn fwy perthnasol a difyr. Roedd ysgolion llwyddiannus yr oeddem yn ymgysylltu â nhw yn darparu amrywiaeth o brofiadau diwylliannol ac ieithyddol, y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth, i gryfhau cymhelliant a diddordeb hirdymor disgyblion mewn dysgu ieithoedd.

Mewn mwyafrif o ysgolion yn ein sampl, roedd clybiau ieithoedd rhyngwladol a mentrau dan arweiniad disgyblion yn helpu codi proffil ieithoedd ar draws yr ysgol.

### Llysgenhadon Iaith yn Ysgol Uwchradd Bro Gwaun (LW)

Mae **Ysgol Uwchradd Bro Gwaun, Sir Benfro**, wedi sefydlu cynllun Llysgenhadon Iaith i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ieithoedd a gwerthfawrogiad diwylliannol ar draws yr ysgol. Mae'r fenter hon wedi'i chynllunio i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o ieithyddion a gwneud dysgu ieithoedd yn ddifyr ac yn hygyrch i bob disgybl. Mae Llysgenhadon Iaith yn chwarae rôl ganolog mewn datblygu ieithoedd rhyngwladol, gan arwain mentrau, fel:

- clwb brecwast Ffrangeg, sef 'Croissants a Sgwrsio', lle mae disgyblion yn ymarfer siarad mewn lleoliad anffurfiol
- bwydlenni â themâu rhyngwladol yn y ffreutur, lle caiff ymadroddion iaith allweddol eu harddangos
- bwrdd newyddion rhyngwladol, yn arddangos digwyddiadau byd-eang
- adnoddau fideo ar gyfer ysgolion cynradd clwstwr, sy'n cryfhau pontio a dysgu ieithoedd cynnar
- prynhawniau ffilmiau tramor, sy'n atgyfnerthu dealltwriaeth ddiwylliannol

Mae'r dull rhagweithiol hwn wedi cael effaith ymledol gadarnhaol, gyda disgyblion hŷn yn gofyn am gael ymuno â'r rhaglen. Mae'r cynllun yn llwyddo i fagu hyder, ennyn chwilfrydedd, a gwerthfawrogiad ysgol gyfan o ieithoedd rhyngwladol.

Roedd sawl un o'r ysgolion yr ymwelom â nhw yn darparu cyfleoedd ychwanegol yn benodol ar gyfer disgyblion â medrau datblygedig. Dewis poblogaidd oedd cymryd rhan yn y Gystadleuaeth Ieithoedd Cenedlaethol flynyddol a gynhelir gan Bencadlys Cyfathrebu Llywodraeth y Deyrnas Unedig, GCHQ. Mewn un ysgol, cymerodd dros 70 o ddisgyblion ran yn y gystadleuaeth yn eu hamser rhydd, gan ddangos lefel uchel o frwdfrydedd ar gyfer dysgu ieithoedd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, mewn ychydig o ysgolion, nid oedd cyfleoedd anffurfiol i ddisgyblion ymgymryd â dysgu ieithoedd rhyngwladol, ac roedd ymgysylltu â disgyblion wedi'i gyfyngu i wersi ffurfiol.

Pan roedd tripiau a phartneriaethau rhyngwladol ar gael, roeddent yn cynnig cyfleoedd bywyd go iawn i amlygu disgyblion i ieithoedd rhyngwladol. Mewn llawer o ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd disgyblion yn elwa ar y cyfle i gymryd rhan mewn tripiau rhyngwladol rheolaidd a thrafodaethau ar-lein gydag ysgolion partner. Roedd y gweithgareddau hyn yn galluogi disgyblion i ymarfer eu medrau iaith mewn lleoliadau dilys a datblygu dealltwriaeth ddyfnach o wahanol ddiwylliannau a ffyrdd o fyw.

Mewn ychydig o ysgolion, dywedodd athrawon ac arweinwyr wrthym fod ymweliadau rhyngwladol wedi digwydd yn llai aml yn y blynyddoedd diwethaf, oherwydd cyfyngiadau ariannol a phwysau o ran amser. Mewn un ysgol, roedd arweinwyr wedi ymrwymo i ariannu un trip dramor ar gyfer pob disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Dywedodd ychydig o athrawon wrthym fod cwtogi ar ymweliadau dramor wedi cyfrannu at ostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n dewis astudio ieithoedd rhyngwladol mewn TGAU a thu hwnt, oherwydd nad yw disgyblion yn cael profiad uniongyrchol o ddefnyddio ieithoedd dramor.

Roedd ychydig o ysgolion wedi elwa ar gymorth ariannol gan raglen 'Taith' i gefnogi eu hymrwymiad i ymweliadau a phartneriaethau rhyngwladol. Mae Taith yn rhaglen cyfnewid dysgu ryngwladol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a'i nod yw cefnogi symudedd disgyblion, partneriaethau byd-eang, a chyfoethogi dysgu ieithoedd. Rhaid i brosiectau a ariennir gan Taith sicrhau bod o leiaf 25% o ddisgyblion o grwpiau nad oes cynrychiolaeth ddigonol ohonynt, sy'n cynnwys disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Roedd ysgolion a oedd wedi ymgysylltu â Taith yn darparu profiadau rhyngwladol gwerthfawr a oedd yn ymestyn ymgysylltiad disgyblion, eu hymwybyddiaeth ddiwylliannol, ac yn cymhwyso ieithoedd rhyngwladol mewn bywyd go iawn.

### Datblygu medrau iaith ar gyfer y byd gwaith

Mae **Ysgol Aberconwy, Conwy**, wedi llwyddo i integreiddio dysgu ieithoedd gyda phrofiad gwaith byd go iawn trwy brosiect partneriaeth Taith. Gwahoddwyd pob un o ddisgyblion y chweched dosbarth i gymryd rhan mewn profiad gwaith yn Sbaen, gan ennill profiad uniongyrchol mewn gweithleoedd amrywiol fel canolfannau achub anifeiliaid anwes, swyddfeydd penseiri, cwmnïau cyfreithiol ac ysgolion. I baratoi, cwblhaodd disgyblion 28 awr o wersi Sbaeneg, yn cynnwys cyfarchion, cludiant cyhoeddus, a chyfathrebu yn y gweithle. Trwy fyw mewn ardal nad yw'n ardal dwristaidd, buont yn ymdrochi mewn Sbaeneg a'i diwylliant, gan feithrin annibyniaeth, gwydnwch, a datrys problemau. Llwyddodd y profiad hwn i wella medrau cyflogadwyedd disgyblion, gwella'u hymwybyddiaeth ddiwylliannol, a magu hyder yn defnyddio'r iaith yn y byd go iawn. Roedd yn brofiad buddiol iddynt, p'un a oeddent yn astudio Sbaeneg Safon Uwch ai peidio.

O'n trafodaethau ag arweinwyr, roedd yn glir nad oedd rhai adrannau ieithoedd rhyngwladol yn ymwybodol o'r cyllid a'r cymorth sydd ar gael trwy sefydliadau allanol, gan arwain at golli cyfleoedd ar gyfer profiadau dysgu rhyngwladol.

Mewn ychydig o ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd arweinwyr wedi meithrin partneriaethau cryf â phrifysgolion ac asiantaethau allanol, i helpu cefnogi hyrwyddo ieithoedd rhyngwladol. Yn yr ysgolion hyn, roedd cydweithio effeithiol â phrifysgolion a phartneriaid eraill wedi cynyddu ymgysylltiad disgyblion, wedi cefnogi dilyniant ôl-16 mewn ieithoedd ac wedi amlygu manteision gyrfa astudio ieithoedd.

Mewn un o'r ysgolion yr ymwelom â hi yng nghymoedd De Cymru, mae tua 40 o ddisgyblion ym Mlwyddyn 9 yn derbyn cymorth mentora uniongyrchol trwy'r Cynllun Mentora Ieithoedd Tramor Modern wedi'i arwain gan Brifysgol Caerdydd. Mae'r ysgol wedi defnyddio'r cymorth targedig hwn ym Mlwyddyn 9 i helpu cynyddu niferoedd y disgyblion sy'n dewis astudio ieithoedd rhyngwladol mewn TGAU. Dros y 10 mlynedd ddiwethaf, mae tua 950 o fyfyrwyr prifysgol wedi cael eu rhoi mewn ysgolion fel mentoriaid iaith trwy'r cynllun, ac maent wedi gweithio gyda thua 20,000 o ddisgyblion. Mewn ysgol arall, mae myfyrwyr prifysgol o Brifysgol Caerhirfryn yn cynnal gweithdai ar gyfer disgyblion Blwyddyn 8 a 9 i drafod manteision dysgu iaith ryngwladol. Ymwelom ag ysgol yn Abertawe hefyd a oedd yn meithrin perthynas agos â Phrifysgol Abertawe, lle mae darlithwyr yn ymweld yn rheolaidd i drafod llwybrau gyrfa a phwysigrwydd ieithoedd rhyngwladol ym myd gwaith.

Mewn ychydig o ysgolion, nid oedd arweinwyr wedi ymgymryd â mentora prifysgol, neu os oeddent, ychydig iawn o ddisgyblion yn unig oedd yn cymryd rhan. Dywedodd ychydig iawn o arweinwyr wrthym eu bod o'r farn fod sesiynau mentora yn gallu bod yn sesiynau tymor byr ac nad ydynt yn cynnwys gweithgareddau dilynol, sy'n cyfyngu ar eu dylanwad hirdymor ar nifer y disgyblion sy'n astudio ieithoedd rhyngwladol.

### Arweiniad a chymorth

Mae darparu arweiniad a chymorth effeithiol yn hanfodol i sicrhau bod disgyblion yn gwneud dewisiadau gwybodus am astudio ieithoedd rhyngwladol, yn deall ei berthnasedd ar gyfer gyrfaoedd yn y dyfodol, ac yn teimlo'u bod yn cael cefnogaeth trwy gydol eu taith ddysgu. O'n trafodaeth â darparwyr a rhanddeiliaid, gwelom fod disgyblion yn fwy tebygol o ddewis astudio ieithoedd rhyngwladol mewn TGAU ac ar ôl hynny os ydynt yn cael cyngor cryf ar yrfaoedd, arweiniad ar opsiynau, a chymorth targedig gan Gyrfa Cymru a sefydliadau eraill.

Bron ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, nid oedd cyngor gyrfaoedd am ieithoedd rhyngwladol yn ddigon cryf. Mewn mwyafrif o ysgolion, nid oedd disgyblion yn ymwybodol o sut gellir defnyddio medrau iaith mewn ystod eang o yrfaoedd, y tu hwnt i addysgu traddodiadol a rolau cyfieithu. Dywedon nhw wrthym ni nad ydynt yn cael digon o wybodaeth am sut mae ieithoedd rhyngwladol yn fuddiol ar gyfer llwybrau gyrfa ehangach. Yn aml, roedd disgyblion o'r farn fod pynciau eraill yn cael eu blaenoriaethu yn y broses opsiynau, gan ei gwneud yn llai tebygol y byddent yn dewis iaith.

Bron ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd arweiniad ar ddewisiadau pwnc yn cael ei ddarparu trwy nosweithiau a llyfrynnau opsiynau. Mewn ychydig o ysgolion, roedd sesiynau rhagflas yn ychwanegu at hyn, a chymorth un i un mwy strwythuredig ar gyfer disgyblion, i lywio'r penderfyniadau a wnânt. Yn yr ysgolion hyn, roedd arweinwyr

pwnc yn gweithio'n galed i uchafu niferoedd y disgyblion sy'n dewis parhau â'u hieithoedd mewn TGAU. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion, dywedodd disgyblion wrthym fod arweiniad pwnc a chymorth ar gyfer ieithoedd rhyngwladol yn wannach nag ydyw ar gyfer pynciau STEM, sy'n lleihau eu hyder wrth ddewis iaith ryngwladol ar gyfer TGAU. Mewn llawer o ysgolion, prin oedd yr ymgysylltiad â rhieni a gofalwyr i amlygu pwysigrwydd dysgu ieithoedd.

Mewn ychydig o ysgolion, roedd arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gyda Gyrfa Cymru i ddarparu arweiniad gwerthfawr, gan atgyfnerthu manteision dysgu iaith ar gyfer cyflogadwyedd. Fodd bynnag, roedd effaith y gwaith hwn yn amrywio ar draws ysgolion, gyda rhai ohonynt yn elwa ar gymorth strwythuredig gan Gyrfa Cymru, tra roedd ysgolion eraill yn dweud bod bylchau mewn cyngor penodol ar yrfaoedd ar gyfer ieithoedd rhyngwladol, neu ddiffyg gwybodaeth am ba gymorth sydd ar gael.

Mewn ychydig o'r ysgolion yn y sampl, roedd Gyrfa Cymru wedi hwyluso cysylltiadau rhyngddyn nhw a chyflogwyr sy'n defnyddio ieithoedd rhyngwladol, yn rhan o'i strategaeth ehangach i gysylltu ysgolion â busnesau. Fodd bynnag, roedd ffocws y prosiect hwn yn amlach ar fedrau cyflogadwyedd cyffredinol yn hytrach na chyfleoedd swydd sy'n ymwneud yn benodol ag ieithoedd rhyngwladol. Mewn llawer o ysgolion yr ymwelom â nhw, nid oedd ieithoedd rhyngwladol yn cael yr un amlygrwydd mewn arweiniad a chymorth â phynciau STEM, gan leihau ymwybyddiaeth disgyblion o werth ieithoedd rhyngwladol ym myd gwaith. Yn ychwanegol, nid oedd athrawon ieithoedd rhyngwladol bob amser yn ymwybodol o'r adnoddau Gyrfa Cymru sydd ar gael i gefnogi addysg gyrfaoedd. Mewn llawer o ysgolion, nid oedd disgyblion yn ystyried bod ieithoedd rhyngwladol yn fedr gyrfa gwerthfawr oherwydd y diffyg arweiniad pwnc targedig.

### Yn gryno

- Roedd llawer o ddisgyblion yn mwynhau dysgu ieithoedd rhyngwladol ac yn deall eu manteision ar gyfer cyfathrebu, teithio, a chyflogaeth, ond roedd brwdfrydedd yn aml yn lleihau ymhlith disgyblion hŷn oherwydd anhawster a diffyg perthnasedd canfyddedig.
- Gall dewis disgyblion gael ei ddylanwadu gan gamdybiaethau, gan gynnwys y gred fod dysgu Cymraeg yn ddigonol neu fod pawb yn siarad Saesneg, a diffyg dealltwriaeth o sut mae medrau ieithoedd rhyngwladol yn cefnogi llwybrau gyrfa ehangach.
- Roedd cyngor ac arweiniad gyrfaoedd am ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion yn amrywiol, gyda gwybodaeth gyfyngedig am eu gwerth yn y gweithle neu gysylltiadau â chyflogadwyedd a chyfleoedd byd-eang.
- Roedd gweithgareddau a phrofiadau allgyrsiol, fel clybiau iaith a digwyddiadau diwylliannol, yn helpu codi proffil ieithoedd a hybu ymgysylltiad, er bod cyfleoedd cyfoethogi cyfyngedig mewn rhai ysgolion.
- Roedd ymgysylltiad rhieni yn amrywio, ac roedd llawer o rieni'n gwerthfawrogi dysgu ieithoedd, ond anaml yr oedd ysgolion yn cyfathrebu'n effeithiol â theuluoedd am ei fanteision hirdymor neu lwybrau iaith sydd ar gael.

# Arwain a Gwella Ieithoedd Rhyngwladol

## Arwain a gwella ieithoedd rhyngwladol yn y sector cynradd

O'n trafodaethau â phenaethiaid cynradd, a dadansoddi'r ymatebion i'n harolwg, mae'n glir fod gweithredu ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion cynradd yn datblygu ond yn parhau i fod yn rhy amrywiol. At ei gilydd, roedd penaethiaid cynradd yn rhannu barn gymysg ar lwyddiant cyflwyno ieithoedd rhyngwladol yn eu hysgolion.

## Arweinyddiaeth a gweledigaeth strategol

Mewn ychydig o ysgolion, dywedodd penaethiaid fod cyflwyno ieithoedd rhyngwladol wedi bod yn llwyddiannus, yn enwedig lle roedd cymorth allanol gwerthfawr a dysgu proffesiynol cryf. Roedd mwyafrif o benaethiaid yn dangos ymrwymiad clir, gan ddweud bod heriau'n parhau, er bod cynnydd cadarn wedi cael ei wneud. Roeddent yn cydnabod bod staff a disgyblion yn frwdfrydig, at ei gilydd, ond yn amgyffred bod diffyg hyder staff, cyfyngiadau amser, a phwysau'r cwricwlwm, yn rhwystro cynnydd. Roedd ychydig o benaethiaid yn gweld bod cyflwyno ieithoedd rhyngwladol yn faich ychwanegol, gan frwydro yn erbyn blaenoriaethau cystadleuol, fel gwella medrau llythrennedd Cymraeg a Saesneg.

Mewn mwyafrif o'r ysgolion cynradd yr ymwelom â nhw, roedd arweinwyr wedi datblygu gweledigaeth strategol ar gyfer ieithoedd rhyngwladol o fewn y cwricwlwm. Yn yr ysgolion hyn, roedd arweinwyr yn sicrhau bod dysgu ieithoedd yn cael ei flaenoriaethu a bod ieithoedd yn cael eu hymgorffori ar draws y cwricwlwm, gan ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion brofi dysgu ieithoedd mewn cyd-destunau bywyd go iawn o oedran cynnar. Mewn ychydig o ysgolion, roedd arweinwyr yn hyrwyddo ieithoedd rhyngwladol yn hynod ragweithiol ac wedi sicrhau partneriaethau allanol, cyllid, a chyfleoedd dysgu proffesiynol i gefnogi datblygiad darpariaeth o ansawdd uchel. Gwelsom hefyd enghreifftiau buddiol o arweinyddiaeth effeithiol disgyblion o ran ieithoedd rhyngwladol a sut maent wedi cymryd rhan yn yr agwedd hon ar waith eu hysgolion.

### Llysgenhadon disgyblion dros ieithoedd

Sefydlwyd grŵp llais y disgybl y Llysgenhadon Iaith yn **Ysgol Gynradd Santes Gwladys, Caerffili**, i hyrwyddo cariad ysgol gyfan am ieithoedd rhyngwladol. Mae Llysgenhadon Iaith yn cyflawni llawer o rolau, gan gynnwys helpu cynllunio diwrnodau thema Iaith Ryngwladol, awgrymu syniadau neu weithgareddau iaith creadigol. Yn ystod cyfarfodydd bob pythefnos, mae Llysgenhadon yn rhannu syniadau a mentrau i hyrwyddo ieithoedd. Mae hyn yn cynnwys dewis a rhannu 'phrase de la semaine' (brawddeg yr wythnos), a Llysgenhadon yn gweithredu fel modelau rôl. Mae Llysgenhadon wedi creu tystysgrifau ac yn dyfarnu pwyntiau gwobr ar gyfer plant sy'n dangos brwdfrydedd a gwydnwch mewn dysgu iaith. Caiff ieithoedd a diwylliannau eu dathlu trwy gyflwyniadau wedi'u creu gan y grŵp llais y disgybl, a'u cyflwyno yn ystod gwasanaethau. Mae rôl y llysgenhadon iaith wedi helpu codi proffil ieithoedd rhyngwladol ar draws yr ysgol.

## Gwaith partneriaeth a chymorth

Mewn sawl un o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, nid oedd cydweithio effeithiol wedi'i gyfyngu i weithio gydag ysgolion eraill. Roedd yr ysgolion cynradd mwyaf effeithiol wedi meithrin cysylltiadau cryf â gwasanaethau gwella rhanbarthol, prosiect Dyfodol Byd-eang, a sefydliadau rhyngwladol, gan ddarparu hyfforddiant a phrofiadau iaith byd go iawn ar gyfer staff a disgyblion.


- Mewn ychydig o ysgolion, roedd arweinwyr yn gweithio'n agos gyda'u gwasanaeth rhanbarthol gwella ysgolion i ddatblygu a gweithredu strategaethau ieithoedd rhyngwladol. Roeddent yn derbyn dysgu a chymorth proffesiynol gan amrywiaeth o ddarparwyr allanol, gan gynnwys addysgeg effeithiol, ar gyfer addysgu ieithoedd i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu.
- Roedd un ysgol wedi elwa ar gymorth arweinydd ieithoedd rhyngwladol awdurdod lleol, a oedd wedi darparu cymorth un i un, dysgu proffesiynol, ac arweiniad ar gynllunio gwersi, a oedd wedi helpu datblygu hyder athrawon.
- Roedd llawer o ysgolion wedi elwa ar eu hymgysylltiad â phrosiect Dyfodol Byd-eang, fel sicrhau cyllid gan Taith i ddatblygu cysylltiadau ag ysgolion dramor, gan arwain at gyfnewid llythyrau, galwadau fideo, a hyd yn oed ymweliadau dramor i gryfhau ymwybyddiaeth o'r iaith ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol.
- Defnyddiodd un ysgol gyllid Taith i anfon athro ar gwrs trochi iaith yn Sbaen, gan gynorthwyo'r athro i wella'i fedrau iaith a'i hyder mewn addysgu ieithoedd rhyngwladol.
- Mewn ychydig o ysgolion, datblygwyd partneriaethau â sefydliadau rhyngwladol a sefydliadau iaith, fel Institut Français a Goethe Institut, i ddarparu hyfforddiant staff a phrofiadau dysgu i ddisgyblion.
- Roedd ysgolion eraill yr ymwelom â nhw wedi meithrin cysylltiadau rhyngwladol i gefnogi dimensiwn diwylliannol a rhyngwladol y cwricwlwm cynradd.

### Cysylltiadau rhyngwladol yn dod ag ieithoedd yn fyw

Mae **Ysgol Gynradd Northop Hall, Sir y Fflint**, wedi llwyddo i ymgorffori cysylltiadau rhyngwladol i ddod â dysgu ieithoedd yn fyw, gan feithrin gwerthfawrogiad disgyblion o ddiwylliant Ffrengig tra'n ymestyn eu medrau Ffrangeg, hefyd. Trwy bartneriaeth ag ysgol yn Normandi, gyda chefnogaeth gan grant Taith, galluogwyd disgyblion i gymryd rhan mewn prosiect dwyieithog o dan y thema rygbi, yn hyrwyddo'r Gymraeg, Ffrangeg a Saesneg. Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn cyfnewid llythyrau â ffrindiau gohebol yn Ffrainc, gan ddarganfod tebygrwydd a gwahaniaethau diwylliannol. Galluogodd galwadau fideo i ddisgyblion glywed a defnyddio Ffrangeg mewn cyd-destun byd go iawn, gan gynyddu eu hyder i siarad yr iaith. Cafwyd teithiau cyfnewid ar ddiwedd y prosiect. Helpodd y profiad dilys hwn y disgyblion i ddatblygu agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu ieithoedd, lle roeddent yn gwerthfawrogi amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol. Mae cysylltiadau parhaus ag ysgol bartner newydd yn St. Malo bellach yn ymestyn y profiad i ddisgyblion iau, gan atgyfnerthu ymrwymiad yr ysgol i ddysgu iaith mewn cyd-destunau trochi a byd go iawn.

Mewn mwyafrif o ysgolion, roedd ymgysylltiad cyfyngedig ag asiantaethau allanol, gan olygu nad oedd athrawon yn cael cymorth arbenigol ar gyfer ieithoedd rhyngwladol. Mewn ychydig o ysgolion, roedd arweinwyr yn pryderu am yr ansicrwydd ynghylch cymorth rhanbarthol a sut roedd hyn wedi gwneud cynllunio hirdymor ar gyfer gwelliant yn anodd. Roedd hyn yn bryder penodol o ran argaeledd dysgu proffesiynol i gefnogi ieithoedd rhyngwladol yn y sector cynradd.

**Siart 9: Hyder penaethiaid cynradd yng ngallu athrawon i addysgu ieithoedd rhyngwladol**




Mae canrannau wedi'u seilio ar ddata gan 37 o ymatebwyr

Mynegodd arweinwyr mewn llawer o ysgolion yr ymwelom â nhw eu pryder am ddiffyg hyder ymhlith athrawon i gyflwyno ieithoedd rhyngwladol oherwydd cyfleoedd dysgu proffesiynol cyfyngedig. Yn ein harolwg o benaethiaid cynradd, dywedodd 16.2% o ymatebwyr nad oeddent yn hyderus o gwbl yng ngallu eu hathrawon i addysgu ieithoedd rhyngwladol. Roedd lleiafrif (tua 40%) o benaethiaid naill ai'n hyderus neu'n hyderus iawn yng ngallu eu hathrawon i addysgu ieithoedd rhyngwladol. Er gwaethaf y diffyg hyder hwn, dywedodd llawer o ymatebwyr i'n harolwg cenedlaethol wrthym fod cyfleoedd dysgu proffesiynol i helpu athrawon i oresgyn hyn yn gyfyngedig.

Mewn ychydig o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd arweinwyr wedi darparu cyfleoedd defnyddiol i rieni a gofalwyr ymgysylltu ag ieithoedd rhyngwladol, er enghraifft trwy fynychu cyngherddau amlieithog a diwrnodau rhyngwladol, a darparu tasgau gwaith cartref thema iaith ar gyfer disgyblion. Roedd rhai ysgolion yn cynnwys rhieni a gofalwyr ochr yn ochr â'r gymuned ehangach, gan wahodd rhieni i arwain gweithgareddau i helpu dathlu amrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol o fewn cymuned yr ysgol.

## Hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

Bron ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, nid oedd arweinwyr yn cynnwys ieithoedd rhyngwladol yn eu prosesau sicrhau ansawdd a hunanwerthuso, ac o

ganlyniad, nid oedd ansawdd yr addysgu na chynnydd disgyblion yn cael eu gwerthuso'n ffurfiol. Er bod arweinwyr yn cyfeirio at 'sesiynau galw i mewn' anffurfiol i arsylwi sesiynau ieithoedd, roedd cyfleoedd yn cael eu colli i adolygu effaith darpariaeth ieithoedd rhyngwladol, er enghraifft trwy deithiau dysgu, bwrw golwg ar lyfrau a gweithgareddau llais y disgybl. Dywedodd lleiafrif o arweinwyr cynradd wrthym eu bod yn teimlo nad oedd ganddynt y wybodaeth bynciol sydd ei hangen i fonitro a gwerthuso ansawdd addysgu ieithoedd yn effeithiol. Nid oedd gweithgareddau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd wedi'u datblygu'n ddigonol yn y rhan fwyaf o ysgolion, gan olygu nad oedd gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn dysgu ieithoedd yn eu hysgolion.

### Yn gryno

- Roedd ymrwymiad arweinwyr cynradd i ieithoedd rhyngwladol yn amrywiol – roedd rhai arweinwyr yn gweld hyn yn gyfle i gyfoethogi'r cwricwlwm, tra bod arweinwyr eraill yn ei weld yn faich ychwanegol ymhlith blaenoriaethau cystadleuol.
- Pan roedd arweinyddiaeth yn gryf, roedd ysgolion yn datblygu gweledigaeth strategol glir, yn integreiddio ieithoedd ar draws y cwricwlwm, ac yn creu partneriaethau ystyrlon.
- Nid oedd llawer o arweinwyr yn meddu ar arbenigedd yn benodol i bwnc, ac roeddent yn amgyffred bod hyn yn cyfyngu ar eu gallu i werthuso ansawdd yr addysgu a chynnydd disgyblion mewn ieithoedd rhyngwladol.
- Roedd prosesau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd ffurfiol yn aml yn gyfyngedig, gan olygu mai anaml yr oedd ysgolion yn olrhain effaith addysgu ieithoedd neu'n defnyddio data ar gynnydd disgyblion i lywio gwelliant.
- Roedd mynediad at ddysgu proffesiynol yn amrywiol, gan adael llawer o athrawon heb yr hyder na'r hyfforddiant sydd ei angen i gyflwyno addysgu ieithoedd o ansawdd uchel.

## Arwain a gwella i gefnogi pontio

Roedd trafodaethau ag arweinwyr yn y sector cynradd a'r sector uwchradd yn cadarnhau pwysigrwydd cydweithio llwyddiannus rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd i gefnogi cyfnod pontio disgyblion. Mewn ychydig o ysgolion, roedd arweinwyr wedi sefydlu perthnasoedd gwaith cryf, gan sicrhau bod yr ieithoedd yr oedd disgyblion wedi eu dysgu o'r blaen yn cael eu cydnabod, yn y cyfnod pontio, o'r sector cynradd i Flwyddyn 7.

Yn yr ysgolion hyn, roedd arweinwyr:

- yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r hyn yr oeddent eisiau i ddisgyblion ei wybod a gallu ei wneud yn y cyfnod pontio, gan ddefnyddio'r camau dilyniant a disgrifiadau o ddysgu i gefnogi eu cynlluniau cwricwlwm
- yn datblygu ymagweddau cyson at addysgu a dysgu ar draws yr ysgolion clwstwr i sicrhau tegwch a pharhad profiad yn y cyfnod pontio i'r ysgol uwchradd
- yn rhannu arfer effeithiol ac yn datblygu adnoddau o ansawdd uchel gydag ysgolion eraill yn y clwstwr

- yn elwa ar arbenigedd pwnc mewn ieithoedd yn yr ysgolion uwchradd ac yn ei ddefnyddio i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar gyfer disgyblion oedran cynradd

Mewn ychydig o ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd arweinwyr yn cynorthwyo athrawon uwchradd i ymweld â'r ysgol gynradd yn rheolaidd i addysgu ieithoedd i ddisgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6. Er nad yw'n bosibl ym mhob clwstwr, roedd y dull cydweithredol hwn yn helpu sicrhau bod disgyblion yn meithrin gwybodaeth sylfaenol cyn eu cyfnod pontio i Flwyddyn 7. Mewn ysgolion eraill, roedd arweinwyr pwnc uwchradd yn darparu cymorth teilwredig i athrawon cynradd, gan ddatblygu gwersi ac adnoddau y gallant eu teilwra i anghenion eu disgyblion, i'w cynorthwyo i ddatblygu eu dealltwriaeth o addysgeg effeithiol. Mewn un ysgol, roedd arweinwyr pwnc uwchradd yn defnyddio llais y disgybl ac offer asesu i adolygu cynnydd disgyblion mewn ieithoedd cyn Blwyddyn 7, i'w helpu i ddeall gwybodaeth a medrau blaenorol disgyblion.

### Ymagwedd ar draws y clwstwr at gynllunio'r cwricwlwm

Mae **Ysgol Gynradd Crucywel, Powys**, wedi datblygu ymagwedd strwythuredig at ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd rhyngwladol, gan ymgorffori Sbaeneg ar draws llawer o grwpiau blwyddyn yn rhan o fodel clwstwr cydweithredol gydag Ysgol Uwchradd Crucywel. Caiff dysgwyr iau eu hamlygu i Sbaeneg yn gynnar, trwy wasanaethau â thema iaith ac addysgu trawsgwricwlaidd. Mae partneriaeth y clwstwr yn cefnogi darpariaeth o ansawdd uchel, gan gynnig dysgu proffesiynol, cymorth ar gyfer cynllunio, ac adnoddau ar y cyd ar draws yr ysgolion cynradd bwydo, gyda chefnogaeth yr ysgol uwchradd. Mae'r ymagwedd integredig a chydweithredol hon yn golygu bod dysgu ieithoedd yn cael ei werthfawrogi ar draws y clwstwr ac yn cefnogi dilyniant ym medrau iaith disgyblion yn eu hysgolion priodol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau defnyddio'r iaith darged â hyder cynyddol.

Roedd y partneriaethau cynradd ac uwchradd mwyaf effeithiol yn cynnwys cydweithio rheolaidd, cynllunio'r cwricwlwm ar y cyd, ac ymagweddau strwythuredig at gyfnod pontio disgyblion rhwng y sector cynradd a'r sector uwchradd. Yn ychwanegol, roedd cyfleoedd dysgu proffesiynol ar y cyd yn helpu sicrhau cysondeb mewn addysgeg a gwybodaeth bynciol.


### Cynllunio pontio yn effeithiol

Mae **Ysgol Gyfun Heolddu, Caerffili**, wedi datblygu ymagwedd gref ar draws y clwstwr at ieithoedd rhyngwladol, gan gefnogi'r cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Er 2019, mae'r ysgol wedi cydweithio ag ysgolion cynradd y clwstwr i ddatblygu cynllunio ar y cyd, gan gynnwys prosiect traws-sector wedi'i seilio ar 'The Very Hungry Caterpillar'. Mae staff cynradd yn cael hyfforddiant ac adnoddau, tra bod llysgenhadon iaith disgyblion yn cymryd rhan mewn diwrnod hyfforddiant Ffrangeg yn Heolddu. Yn ystod y pandemig, cyflwynodd Heolddu wersi pontio rhithwir yn Ffrangeg, sydd wedi parhau yn flynyddol. Yn nhymor y gwanwyn, mae athro Ffrangeg yn ffrydio'n

fyw i ddosbarthiadau cynradd, gan gyflwyno gwersi strwythuredig wedi'u cefnogi gan lyfrynnau ac adnoddau. O ganlyniad, pan fydd disgyblion yn dechrau ym Mlwyddyn 7, maent yn awyddus i barhau â Ffrangeg ac adeiladu ar eu dysgu blaenorol. Mae prosiect amlieithog ar ddechrau Blwyddyn 7 yn ymestyn gwybodaeth ieithyddol bresennol disgyblion, ac yn codi ymwybyddiaeth am ieithoedd cartref disgyblion. Mae'r ymagwedd hon yn meithrin brwdfrydedd dros ieithoedd ac yn cefnogi parhad mewn dysgu.

Mewn mwyafrif o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, fodd bynnag, roedd cydweithio cyfyngedig rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, a diffyg ffocws digonol ar gynnydd disgyblion mewn dysgu ieithoedd mewn gweithgareddau pontio. Yn gyffredinol, nid oedd ysgolion uwchradd yn gofyn am ddigon o wybodaeth, nac yn derbyn gwybodaeth, am ddysgu blaenorol disgyblion, gan arwain at ailadrodd a bylchau yn eu gwybodaeth ym Mlwyddyn 7. Nid oedd dysgwyr ar draws y ddau sector wedi sefydlu ymagwedd ar y cyd at addysgu ieithoedd rhyngwladol eto, gan arwain at anghysondebau o ran beth mae disgyblion yn ei ddysgu, a sut.

**Siart 10: Sut roedd athrawon cynradd yn dewis ieithoedd ar gyfer y cwricwlwm – ymatebion penaethiaid**





Mae canrannau wedi'u seilio ar ddata gan 37 o ymatebwyr

Yn ein harolwg o benaethiaid cynradd, gofynnom iddynt sut roeddent yn penderfynu pa iaith i'w chynnwys yn eu cwricwlwm. Gallent ddewis y naill ymateb neu'r llall, neu'r ddau ymateb, ac roeddent hefyd yn gallu dewis 'arall', ac esbonio'u hymateb. Dywedodd cyfanswm o 57 y cant o ymatebwyr eu bod yn adlewyrchu iaith bosibl yn yr ysgol uwchradd, tra bod 46 y cant yn ystyried gwybodaeth neu hyder eu staff mewn iaith


benodol. Roedd y rhesymau eraill a roddwyd dros beidio â dewis yr un iaith â'u hysgol uwchradd leol yn cynnwys dewis ieithoedd yn gysylltiedig â thestunau y mae disgyblion yn dod ar eu traws a'r penderfyniad i ganolbwyntio'n bennaf ar gyflwyno Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn lle iaith ryngwladol draddodiadol. Roedd rhai ysgolion yn cynnig profiadau dysgu mewn llawer o ieithoedd rhyngwladol, ond mae'r dull hwn yn golygu bod perygl o ddiffyg manylder, gan atal disgyblion rhag meistroli unrhyw iaith benodol yn effeithiol.

**Siart 11: P'un a yw ysgolion wedi newid y drefn o ran addysgu ieithoedd ar ôl cyflwyno ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion cynradd**




Mae canrannau wedi'u seilio ar ddata gan 52 o ymatebwyr

**Siart 12: P'un a yw ysgolion uwchradd wedi gweithio gyda chydweithwyr cynradd yn eu clwstwr i gynllunio'r cwricwlwm ieithoedd rhyngwladol fel rhan o weithredu Cwricwlwm i Gymru**




Mae canrannau wedi'u seilio ar ddata gan 52 o ymatebwyr

Nid oedd dros hanner yr athrawon a'r arweinwyr uwchradd a ymatebodd i'n harolwg wedi cydweithio â'u cydweithwyr cynradd i gynllunio ymagwedd gydlynus clwstwr o ysgolion at eu cwricwlwm ieithoedd rhyngwladol. Dywedodd dros dri chwarter (77%) o ymatebwyr nad oeddent wedi newid yr hyn y maent yn ei addysgu ar ôl cyflwyno ieithoedd rhyngwladol yn y sector cynradd. Mae hyn yn awgrymu nad yw athrawon uwchradd yn aml yn ymwybodol o'r hyn y mae disgyblion wedi'i ddysgu ar lefel gynradd ac nad yw cynnydd disgyblion mewn ieithoedd rhyngwladol yn cael ei ystyried yn ddigon da yn y cyfnod pontio. Dyma effaith bosibl cynllunio gwan yn y cyfnod pontio:

- ailadrodd a gwastraffu amser dysgu ym Mlwyddyn 7, wrth i ddisgyblion ailedrych ar destunau sylfaenol yn lle datblygu eu gwybodaeth a'u medrau
- diffyg ymgysylltu ag ieithoedd rhyngwladol, yn enwedig os yw disgyblion eisoes wedi dysgu iaith wahanol yn yr ysgol gynradd, ac wedyn ni allant ddatblygu'r iaith benodol honno ymhellach
- nifer isel o ddisgyblion yn astudio ieithoedd rhyngwladol mewn TGAU, oherwydd bod cynllunio gwan ar gyfer dilyniant mewn dysgu yn lleihau hyder a chymhelliant

Mae adroddiad thematig diweddar gan Estyn, Pontio a Chynnydd Disgyblion (Medi 2024) yn argymell y dylai ysgolion weithio'n agosach i ddatblygu ymagweddau cyffredin at addysgu a'r cwricwlwm. Yn ein trafodaethau ag ysgolion, roedd yn glir fod partneriaethau effeithiol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn darparu parhad mewn dysgu, mynediad at addysgu arbenigol, cysondeb mewn dulliau addysgu ar draws clystyrau, ac asesiadau gwell o gynnydd disgyblion. Fodd bynnag, roedd cydweithio cyfyngedig, heriau staffio, a diffyg dulliau cynllunio ar y cyd mewn llawer o ysgolion, yn cyfyngu ar effeithiolrwydd pontio wrth ddysgu ieithoedd.

Yn yr ysgolion pob oed yr ymwelom â nhw, roedd arweinwyr wedi defnyddio ymagwedd fwy strategol at gynllunio traws-sector i gefnogi dilyniant disgyblion, ac roedd cydweithio mwy pwrpasol rhwng staff.

### Cynnydd traws-sector mewn ysgol bob oed

Mae **Ysgol Santes Ffraid, Sir Ddinbych**, wedi datblygu ymagwedd ysgol gyfan, gydlynus, at gynllunio ar gyfer dilyniant mewn Sbaeneg, gan gefnogi parhad o'r dosbarth meithrin i'r chweched dosbarth. Mae arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir o ran y cwricwlwm, gyda chynllunio cydweithredol rhwng athrawon cynradd ac uwchradd yn sail iddi, gan ddefnyddio disgrifiadau dysgu ILlCh a'u proffiliau dysgwyr eu hunain i gefnogi datblygiad ieithyddol disgyblion. Un o gryfderau allweddol ymagwedd yr ysgol yw bod strategaethau addysgu yn alinio â'i gilydd ar draws sectorau. Yn y sector cynradd, mae disgyblion yn dechrau cael eu hamlygu i ieithoedd yn y dosbarth meithrin, trwy gymryd rhan mewn arferion dyddiol, caneuon a dysgu yn seiliedig ar destunau. Mae athrawon uwchradd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr cynradd i sicrhau bod addysgeg yn briodol ar gyfer cyfnodau datblygu disgyblion ac yn cefnogi continwwm dysgu graddol. Mae'r ysgol wedi blaenoriaethu dysgu proffesiynol ar gyfer staff, gan gynnwys dulliau mentora cymheiriaid, a gwaith partneriaeth effeithiol. Mae

hyn yn golygu bod pob un o'r athrawon, ni waeth ym mha sector y maent yn addysgu, yn meddu ar yr hyder a'r arbenigedd i gyflwyno sesiynau iaith o ansawdd uchel. O ganlyniad i hyn, mae ymgysylltiad a chyflawniad disgyblion yn gryf. Mae nifer y disgyblion sy'n dewis astudio Sbaeneg mewn TGAU yn parhau i dyfu, ac mae canlyniadau arholiadau yn gryf.

Yn gyffredinol, er bod cyflwyno ieithoedd rhyngwladol yn y sector cynradd wedi bod yn gadarnhaol, at ei gilydd, roedd arweinwyr ar draws y sector cynradd a'r sector uwchradd yn cytuno bod angen trefniadau pontio a chydweithio mwy effeithiol.

**Yn gryno**

- Roedd pontio rhwng y sector cynradd a'r sector uwchradd yn aml yn gyfyngedig, gydag ychydig iawn o rannu gwybodaeth am ieithoedd y mae disgyblion wedi eu dysgu yn y gorffennol, gan arwain at ailadrodd a phrofiad dysgu tameidiog ym Mlwyddyn 7.
- Ychydig o glystyrau yn unig oedd yn dangos cydweithio effeithiol, lle mae ysgolion cynradd ac uwchradd yn cyd-gynllunio cwricwla, yn rhannu adnoddau, ac yn sicrhau parhad mewn dulliau a disgwyliadau addysgu.
- Nid oedd y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd wedi addasu eu cwricwlwm i ymateb i gyflwyno ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion cynradd, a dywedodd llawer ohonynt nad oedd unrhyw newidiadau i'w cynlluniau cwricwlwm.
- Roedd enghreifftiau cryf o bontio yn cynnwys prosiectau ar y cyd, rhaglenni llysgenhadon iaith, a rhai gwersi'n cael eu cyflwyno gydag athrawon uwchradd i ddisgyblion cynradd, a oedd yn helpu cynnal momentwm a diddordeb mewn ieithoedd.
- Dangosodd ysgolion pob oed a chlystyrau cydweithredol fod cynllunio strategol, ar draws sectorau, yn arwain at ddilyniant gwell, hyder gwell ymhlith disgyblion, ac ymgysylltu gwell â dysgu ieithoedd.


## Arwain a gwella ieithoedd rhyngwladol yn y sector uwchradd

### Arweinyddiaeth a gweledigaeth strategol

Mae arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel yn y sector uwchradd yn hanfodol o ran cynnal a gwella darpariaeth ieithoedd rhyngwladol. Pan roedd gweledigaeth glir ar gyfer ieithoedd rhyngwladol a phrosesau gwerthuso cadarn yn yr ysgolion yr ymwelom â nhw, roeddent yn darparu addysgu a phrofiadau dysgu gwell ac yn annog disgyblion i barhau â'u dysgu ar ôl Blwyddyn 9. Fodd bynnag, pan roedd arweinwyr wedi ymrwymo'n llai i ddatblygu ieithoedd rhyngwladol, roedd hyn yn effeithio ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu, a nifer y disgyblion yn sefyll arholiadau TGAU ac yn astudio ar lefel uwch.

Mewn ychydig o ysgolion, roedd uwch arweinwyr yn dangos ymrwymiad cryf i ieithoedd rhyngwladol ac yn gwneud penderfyniadau strategol i gefnogi eu twf. Sicrhaodd yr uwch arweinwyr hyn fod ieithoedd rhyngwladol a dimensiwn byd-eang y cwricwlwm yn cael eu hintegreiddio o fewn ethos ehangach yr ysgol.

**Siart 13: Amcangyfrifon penaethiaid o ganran y myfyrwyr Blwyddyn 11 presennol yn astudio ieithoedd rhyngwladol ar gyfer TGAU**




Mae canrannau wedi'u seilio ar ddata gan 52 o ymatebwyr

Yn ein harolwg o athrawon ac arweinwyr ysgolion uwchradd, gofynnom pa ganran o'u disgyblion Blwyddyn 11 oedd yn astudio iaith ryngwladol ar hyn o bryd. Mewn tua hanner yr ymatebion, roedd llai na 10% o'r disgyblion yn y grŵp blwyddyn wedi dewis astudio iaith ryngwladol. Bron ym mhob un o'r ysgolion, mae nifer y disgyblion sy'n astudio ieithoedd rhyngwladol mewn TGAU a Safon Uwch yn parhau i fod yn isel, er gwaethaf ymdrechion i hyrwyddo dysgu ieithoedd. Hyd yn oed gyda'r niferoedd bach hyn, mewn ychydig o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd uwch arweinwyr wedi gwneud y dewis strategol i ddiogelu cyrsiau ieithoedd rhyngwladol mewn TGAU a Safon Uwch. Yn yr ysgolion hyn, roedd uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn cydnabod gwerth ieithoedd rhyngwladol ac yn benderfynol o gynnal llwybr prifysgol a gyrfa mewn ieithoedd rhyngwladol ar gyfer disgyblion. Mewn ychydig o achosion, roedd uwch arweinwyr yn gofyn am gymorth ariannol ychwanegol gan eu hawdurdod lleol ac yn dod o hyd i ffyrdd arloesol o gynnal darpariaeth trwy gydweithio ag ysgolion lleol eraill. Er bod disgyblion Safon Uwch yn elwa ar gyrsiau cydweithredol wyneb yn wyneb mewn rhai achosion, roedd defnyddio technoleg hefyd yn cefnogi cydweithio rhwng ysgolion. Mae cofrestriadau ar gyrsiau e-sgol yn dangos bod tua 50[3] o ddisgyblion yn astudio cyrsiau Safon Uwch Ffrangeg neu Sbaeneg trwy e-sgol ledled Cymru ar hyn o bryd.

[3] Yn ôl data mewnol e-sgol heb ei gyhoeddi

### Darpariaeth Safon Uwch gydweithredol

Mae **awdurdod lleol Sir Fynwy** wedi sicrhau ac ehangu darpariaeth Safon Uwch ar gyfer ieithoedd rhyngwladol yn llwyddiannus trwy e-sgol, gan sicrhau mynediad teg at ieithoedd rhyngwladol ar draws pedair ysgol uwchradd y sir. Oherwydd heriau daearyddol a nifer isel y disgyblion yn astudio ieithoedd rhyngwladol, datblygodd yr awdurdod lleol fodel cydweithredol gan alluogi myfyrwyr i astudio Sbaeneg trwy e-sgol, tra'n cael eu haddysgu gan athrawon profiadol yn Sir Fynwy. Mae'r model dysgu hybrid yn cyfuno gwersi ar-lein byw gyda sesiynau wyneb yn wyneb unwaith bob hanner tymor. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal gweithgareddau sicrhau ansawdd rheolaidd, gan ddefnyddio adborth dysgwyr a gwybodaeth am gyrhaeddiad i fireinio'r ddarpariaeth. Mae athrawon yn cydweithio ar draws ysgolion, yn rhannu cyflwyno gwersi ac yn ymgymryd â dysgu proffesiynol rheolaidd i ymestyn yr addysgeg e-sgol. Trwy ymgorffori e-sgol o fewn rhwydwaith strategol ar draws y sir, mae Sir Fynwy wedi ehangu opsiynau'r cwricwlwm, wedi sicrhau hyfywedd cyrsiau, ac wedi cynnal addysgu ieithoedd yn lleol. Mae'r dull hwn sy'n canolbwyntio ar y dysgwr wedi cryfhau darpariaeth Safon Uwch ac wedi ymestyn cyfleoedd hirdymor ar gyfer dysgwyr ieithoedd. Mae'r model wedi galluogi disgyblion i astudio ieithoedd rhyngwladol ar gyfer Safon Uwch, lle na fyddai'r opsiwn hwn wedi bod ar gael, fel arall.

Ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelom â nhw, dywedodd arweinwyr fod ieithoedd rhyngwladol mewn TGAU a Safon Uwch yn dod yn gynyddol anodd i'w cynnal. Mae penaethiaid yn dod yn llai parod i gynnal dosbarthiadau gyda niferoedd bach, yn aml oherwydd pwysau ariannol. Mewn ychydig o ysgolion, dywedodd penaethiaid wrthym ni nad ydynt yn gallu fforddio cynnal dosbarth Safon Uwch gyda llai na 10 neu 12 disgybl. Yn sgil hyn, nid oes gan rai awdurdodau lleol rhyw lawer o ddarpariaeth Safon Uwch, os o gwbl, ar gyfer ieithoedd rhyngwladol. O ganlyniad, mae annhegwch cynyddol yn y ddarpariaeth y gall disgyblion fanteisio arni ledled Cymru.

### Arweinyddiaeth ganol

Mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd penaethiaid adran yn frwdfrydig ac wedi cyflwyno ymagweddau addysgegol tra ystyriol at addysgu ieithoedd. Mewn mwyafrif o ysgolion, roedd arweinwyr canol yn arbenigwyr pwnc gyda chymwysterau lefel gradd, yn aml mewn llawer o ieithoedd, ac yn dangos safonau uchel o wybodaeth bynciol. Mewn ychydig o ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd penaethiaid adrannau yn arweinwyr hynod gryf oedd â disgwyliadau uchel ar gyfer dysgu'r disgyblion. Roedd arweinwyr canol mewn adrannau cryf yn darparu cyfeiriad clir, yn cydweithio'n effeithiol gydag arweinwyr canol eraill, ac yn rhoi prosesau hunanwerthuso gwerthfawr ar waith.

Mewn ychydig o ysgolion, roedd arweinyddiaeth yn llai effeithiol, ac nid oedd athrawon sy'n gyfrifol am ieithoedd rhyngwladol bob amser yn meddu ar arbenigedd pwnc digonol. O ran arweinwyr canol, roedd problemau'n cynnwys y canlynol:

- diffyg ymreolaeth, ddim yn cael eu cefnogi'n dda gan reolwyr llinell ac yn teimlo nad oeddent yn cael rhyw lawer o ddylanwad dros benderfyniadau am y

cwricwlwm
- nid oedd ganddynt rôl weithredol mewn hunanwerthuso a chynllunio gwelliant
- nid oeddent yn gallu manteisio ar ddysgu proffesiynol a rhwydweithiau i'w helpu i ddatblygu medrau arwain yn benodol i bwnc

## Dysgu proffesiynol

Yn yr ysgolion yr ymwelom â nhw, ac wrth ddadansoddi'r ymatebion i'n harolwg cenedlaethol, roedd yn glir fod gan ddysgu proffesiynol effeithiol rôl hanfodol mewn cefnogi addysgu ieithoedd rhyngwladol yn effeithiol. Dywedodd tua dau o bob tri o ymatebwyr i'n harolwg o athrawon ac arweinwyr uwchradd eu bod wedi gallu manteisio ar ddysgu proffesiynol perthnasol. Mewn ychydig o ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd athrawon wedi manteisio ar hyfforddiant o ansawdd uchel, yn benodol i bwnc, ac roeddent yn credu bod hyn wedi arwain at ddeilliannau gwell ar gyfer eu dysgwyr. Mewn ychydig o ysgolion, roedd arweinwyr canol ac athrawon yn cydweithio ac yn rhannu arfer effeithiol gydag athrawon Cymraeg. Fodd bynnag, roedd heriau fel cyfyngiadau amser a chyfle anghyson i fanteisio ar ddysgu proffesiynol yn effeithio ar y graddau yr oedd ysgolion yn gwella addysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd rhyngwladol.

Mewn ychydig o ysgolion, roedd dysgu proffesiynol yn cael effaith sylweddol ar sut roedd athrawon yn addysgu ieithoedd rhyngwladol. Er enghraifft, dywedodd rhai athrawon wrthym fod mabwysiadu dulliau penodol a oedd yn canolbwyntio ar amlygu amlder uchel i ieithoedd ac ailadrodd strwythuredig wedi helpu datblygu rhuglder a hyder ymhlith disgyblion. Mewn ychydig o ysgolion, roedd arweinwyr ac athrawon wedi elwa ar ddysgu proffesiynol penodol ar sut i annog cyfathrebu digymell ac ystyrlon yn yr iaith darged. Dywedodd athrawon wrthym fod ymgysylltu â'r math hwn o ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel wedi gweddnewid y ffordd y maent yn addysgu, a oedd, yn ei dro, wedi arwain at ymgysylltiad a deilliannau gwell gan ddisgyblion.

## Hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

Mewn ychydig o ysgolion, roedd arweinwyr ar bob lefel yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sicrhau ansawdd pwrpasol mewn ieithoedd rhyngwladol. Roeddent yn sicrhau bod prosesau hunanwerthuso wedi'u sefydlu'n dda ac yn llywio cynllunio gwelliant strategol. Pan roedd arfer yn gryf, roedd y penaethiaid adran hyn yn rhoi gweithgareddau hunanwerthuso cynlluniedig ar waith, gan ddefnyddio arsylwadau gwersi, adolygiadau cymheiriaid a gweithgareddau llais y myfyriwr i werthuso ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Yn yr ysgolion hyn, roedd arweinwyr yn asesu cynnydd disgyblion yn effeithiol ac yn defnyddio ystod o wybodaeth i fireinio addysgu a chynllunio'r cwricwlwm, gan arwain at ddeilliannau gwell ar gyfer disgyblion. Mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd arweinwyr yn sicrhau bod cynllunio gwelliant adrannol yn cyd-fynd â blaenoriaethau ysgol gyfan, gan helpu adrannau i sicrhau adnoddau, ymgorffori dysgu proffesiynol, a chynnal cynaliadwyedd hirdymor yn y pwnc. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd arweinwyr yn cefnogi athrawon yn dda, gan ddarparu dysgu proffesiynol targedig a chyfleoedd cydweithredol, yn gysylltiedig â blaenoriaethau ysgol gyfan ac adrannol.

Mewn mwyafrif o ysgolion yn ein sampl, roedd prosesau sicrhau ansawdd mewn ieithoedd rhyngwladol yn llai cyson, ac yn rhy aml, nid oedd ganddynt ffocws digonol yn benodol i bwnc. O ganlyniad, roedd hyn yn cyfyngu ar eu heffeithiolrwydd wrth ysgogi gwelliannau adrannol. Mewn llawer o achosion, roedd arsylwadau gwersi a theithiau dysgu yn cael eu cynnal, ond nid oeddent yn gwerthuso effaith dulliau addysgegol yn benodol i ieithoedd yn gyson. Mewn ychydig o ysgolion, nid oedd arweinwyr canol yn ymgymryd ag mewn unrhyw weithgareddau hunanwerthuso ffurfiol, gan arwain at ddiffyg cynllunio gwelliant adrannol strwythuredig. Yn yr ysgolion hyn, nid oedd cynnydd disgyblion na thueddiadau yn ymgysylltiad disgyblion yn cael eu dadansoddi rhyw lawer, gan olygu bod materion fel gostyngiad yn niferoedd y disgyblion sy'n astudio ieithoedd rhyngwladol mewn TGAU a Safon Uwch yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion, ac nid oedd dulliau addysgu anghyson yn cael eu nodi'n ddigon cynnar. Nid oedd gan ychydig iawn o ysgolion strategaeth ffurfiol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd rhyngwladol. Pan oedd arweinyddiaeth yn wannach, roedd adrannau ieithoedd rhyngwladol yn gweithredu ar wahân, gyda chydweithio cyfyngedig o fewn yr ysgol, neu'r tu allan.

### Yn gryno

- Roedd arweinyddiaeth effeithiol ar lefelau uwch a chanol yn hanfodol i gynnal darpariaeth ieithoedd rhyngwladol—roedd ansawdd yr addysgu, ymgysylltu â disgyblion, a nifer y disgyblion yn astudio ieithoedd rhyngwladol mewn TGAU a Safon Uwch, yn well mewn ysgolion sydd ag arweinyddiaeth gref.
- Roedd penderfyniadau strategol gan uwch arweinwyr, fel diogelu meintiau dosbarthiadau bach neu sicrhau darpariaeth gydweithredol, yn helpu cynnal cyfleoedd i astudio ieithoedd rhyngwladol.
- Roedd arweinwyr canol cryf yn gyrru gwelliant trwy gynllunio cwricwlaidd clir, disgwyliadau uchel, a dysgu proffesiynol yn benodol i bwnc—ond mewn rhai ysgolion, nid oedd gan arweinwyr canol ymreolaeth na mynediad at rwydweithiau cymorth.
- Roedd hunanwerthuso a chynllunio gwelliant adrannol yn anghyson, ac nid oedd llawer o ysgolion yn olrhain cynnydd disgyblion neu'n nodi meysydd allweddol i'w gwella.
- Roedd mynediad at ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel yn amrywio, ac er bod rhai ysgolion yn elwa ar gymorth allanol, gall cyfyngiadau o ran amser a chyllid gyfyngu ar hyn.

## Cymorth a heriau yn y system ehangach

Yn ein cyfarfodydd â chynrychiolwyr o wasanaethau gwella ysgolion sy'n gyfrifol am ieithoedd rhyngwladol, dywedon nhw wrthym ni eu bod wedi gweithio'n galed i ddatblygu perthnasoedd cryf â phenaethiaid, penaethiaid adrannau ac athrawon ieithoedd rhyngwladol. Roedd mwyafrif o'r ysgolion y buom yn ymgysylltu â nhw wedi elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol a chydweithio wedi'u hwyluso gan bartneriaid Dyfodol Byd-eang. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd Cymru, mae consortia rhanbarthol a gwasanaethau gwella ysgolion wedi blaenoriaethu dulliau yn seiliedig ar glwstwr, gan gefnogi pontio o'r sector cynradd i'r sector uwchradd. Mae rhai gwasanaethau gwella

ysgolion wedi cyflwyno defnydd arloesol o dechnoleg, yn enwedig i gefnogi'r sector cynradd, gan arfogi athrawon ag adnoddau ar-lein defnyddiol. Maent hefyd wedi hwyluso mynediad at ddysgu proffesiynol cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys hyfforddiant a ariennir gan Lywodraeth Cymru trwy'r Brifysgol Agored a sefydliadau ieithoedd allanol, fel Institut Français a Goethe Institut. Mae rhaglen Dyfodol Byd-eang wedi chwarae rôl werthfawr mewn cefnogi'r gweithgareddau dysgu proffesiynol hyn. Rhannodd arweinwyr eu pryderon am risg colli cymorth gwerthfawr yn benodol i bwnc, wrth i'r system gwella ysgolion yng Nghymru esblygu.

Yn y rhan fwyaf o'r colegau addysg bellach (AB) y buom yn ymgysylltu â nhw, cyflwynir ieithoedd rhyngwladol yn bennaf trwy eu cyrsiau TGAU a Safon Uwch amser llawn, ond yn yr un modd ag ysgolion uwchradd, mae nifer y disgyblion sy'n astudio ar gyfer yr arholiadau hyn yn fach. Mewn ychydig iawn o golegau addysg bellach, roedd unedau ieithoedd rhyngwladol yn cael eu hymgorffori'n llwyddiannus o fewn cyrsiau galwedigaethol, gan roi medrau ieithoedd ymarferol i ddysgwyr wedi'u cysylltu â llwybrau gyrfa penodol. Yn y colegau hyn, gall myfyrwyr astudio unedau iaith o fewn cyrsiau busnes, twristiaeth neu letygarwch, gan sicrhau eu bod yn gweld perthnasedd uniongyrchol ieithoedd rhyngwladol yn y gweithle. Roedd ychydig o golegau addysg bellach yn cynnig ieithoedd rhyngwladol, Ffrangeg a Sbaeneg yn bennaf, trwy eu rhaglenni dysgu oedolion yn y gymuned.

Mewn mwyafrif o golegau addysg bellach, roedd darpariaeth alwedigaethol ar gyfer ieithoedd rhyngwladol yn fach iawn, yn anghyson neu wedi cael ei dileu yn gyfan gwbl, gan gyfyngu ar lwybrau ar gyfer dysgwyr ôl-16. Dywedodd llawer o golegau fod y galw am gyrsiau ieithoedd rhyngwladol yn isel, gan adlewyrchu'r diffyg dysgu ieithoedd mewn ysgolion ar lefel uwchradd, lle mae llai o fyfyrwyr yn dewis astudio ieithoedd rhyngwladol mewn TGAU a Safon Uwch. O'n trafodaethau, roedd yn glir nad oedd colegau addysg bellach wedi cael eu cynnwys mewn trafodaethau Dyfodol Byd-eang na mentrau ieithoedd cenedlaethol neu ryngwladol, gan leihau amlygrwydd llwybrau ieithoedd rhyngwladol ar draws y sector ôl-16 cyfan.

Roedd pob un o'r darparwyr addysg gychwynnol athrawon (AGA) y cyfarfuom â nhw yn rhannu pryderon difrifol ynghylch recriwtio i raglenni ieithoedd rhyngwladol, ac roedd niferoedd isel iawn o fyfyrwyr yn hyfforddi i fod yn athrawon ieithoedd rhyngwladol ledled Cymru ar hyn o bryd. Ym mlwyddyn academaidd 2024-2025, roedd dyraniad i dderbyn 69 o fyfyrwyr ar draws y pedair partneriaeth sy'n cynnig rhaglenni ieithoedd rhyngwladol. Er bod dyraniadau derbyn cenedlaethol yn cynyddu, roedd ffigurau cofrestru gwirioneddol yn parhau i fod yn ddifrifol o isel, a dim ond 11 o athrawon dan hyfforddiant a gwblhaodd raglen TAR uwchradd mewn ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae data Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) ac Ystadegau Cymru yn dweud wrthym y bu gostyngiad sylweddol yn nifer yr athrawon dan hyfforddiant yn astudio ar gyfer TAR uwchradd mewn ieithoedd rhyngwladol dros y degawd diwethaf.

Yn ychwanegol, mae'r myfyrwyr hynny sy'n cael eu derbyn ar gyfer hyfforddiant yn aml yn cynnig un iaith ryngwladol yn unig, sy'n lleihau'r hyblygrwydd i'w defnyddio fel athrawon mewn ysgolion. Mae ychydig o bartneriaethau wedi cymryd camau

rhagweithiol i archwilio cefndiroedd iaith athrawon dan hyfforddiant cynradd, sy'n helpu i nodi darpar athrawon dwyieithog neu amlieithog a allai gefnogi darpariaeth ieithoedd rhyngwladol yn y dyfodol. Mae Partneriaeth Caerdydd ar gyfer AGA wedi bod ynghlwm wrth fenter recriwtio athrawon ar gyfer graddedigion o Ganada i hyfforddi yn y Deyrnas Unedig, a oedd wedi helpu cynnal niferoedd yr athrawon Ffrangeg yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, dychwelodd yr athrawon dan hyfforddiant hyn i addysgu yng Nghanada.

Er gwaethaf heriau parhaus, mae darparwyr AGA yng Nghymru wedi rhoi mentrau cadarnhaol ar waith i gefnogi ieithoedd rhyngwladol. Yn gyffredinol, mae partneriaethau wedi cyd-gynllunio cyrsiau gydag ysgolion partner arweiniol, gan sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn cael profiadau ysgol strwythuredig a mentoriaid sy'n benodol i bwnc. Yn yr achosion gorau, mae partneriaethau wedi sicrhau bod addysgeg ieithoedd yn parhau i fod yn rhan greiddiol o'r rhaglen uwchradd, gan gynnig amlygu disgyblion i ddulliau addysgu effeithiol amrywiol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae ieithoedd rhyngwladol yn derbyn sylw bach iawn mewn rhaglenni AGA cynradd, yn aml oherwydd y gofynion cynyddol ar amser cyfyngedig yn y rhaglen a addysgir. Mae partneriaethau'n darparu cyn lleied ag awr o gynnwys rhaglen ar addysgu ieithoedd rhyngwladol ar raglenni cynradd, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i ddatblygu arbenigedd yn y sector cynradd yn y dyfodol.

At ei gilydd, mae'r frwydr i recriwtio athrawon dan hyfforddiant yn cael effaith ar gynllunio'r gweithlu ar gyfer addysgu ieithoedd rhyngwladol. Dywed arweinwyr AGA fod heriau recriwtio yn cael eu dwysáu gan gymhellion bwrsarïau uwch yn Lloegr. Yn ychwanegol, maent yn dweud bod cyfraddau recriwtio myfyrwyr rhyngwladol ar raglenni AGA wedi gostwng. Hefyd, amlygodd y partneriaethau rwystrau rhag gosod athrawon dan hyfforddiant mewn ysgolion, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n arbenigo mewn Almaeneg neu'n anelu at ennill profiad addysgu Safon Uwch, oherwydd darpariaeth gyfyngedig ar gyfer ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion uwchradd.

**Yn gryno**

- Mae gwasanaethau gwella ysgolion a phartneriaid Dyfodol Byd-eang yn darparu dysgu proffesiynol a chymorth gwerthfawr, ond dywedodd ysgolion fod anghysondebau o ran mynediad a phryderon am gynaliadwyedd hirdymor y cymorth hwn.
- Roedd colegau addysg bellach yn cynnig darpariaeth gyfyngedig o ran ieithoedd rhyngwladol, yn enwedig mewn llwybrau galwedigaethol, ac nid ydynt yn ymgysylltu â strategaethau fel Dyfodol Byd-eang.
- Mae addysg gychwynnol athrawon yn wynebu heriau recriwtio difrifol, gyda niferoedd isel iawn o athrawon dan hyfforddiant yn dilyn rhaglenni ieithoedd rhyngwladol, sy'n peryglu hyfywedd darpariaeth ieithoedd mewn ysgolion ledled Cymru yn y dyfodol.

# Dulliau a sail y dystiolaeth

I lywio'r adroddiad hwn, yn ystod tymor y gwanwyn 2025, ymwelodd arolygwyr â sampl o ysgolion ledled Cymru. Ymwelom ag 13 ysgol gynradd, 14 ysgol uwchradd a 3 ysgol bob oed. Dewiswyd yr ysgolion yr ymwelom â nhw i sicrhau bod ein sampl yn adlewyrchu amrywiaeth economaidd-gymdeithasol ac ieithyddol Cymru. Dewiswyd 8 o'r 30 ysgol yr ymwelwyd â nhw yn dilyn trafodaethau ag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, fel ysgolion oedd ag arfer effeithiol bosibl. Yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion, buom:

- yn cynnal arsylwadau gwersi a theithiau dysgu
- yn cyfweld ag uwch arweinwyr ac arweinwyr canol
- yn cyfweld â grwpiau o ddisgyblion ar draws y sector cynradd a'r sector uwchradd
- yn adolygu dogfennau ac adnoddau perthnasol

Yn ogystal â'n hymweliadau ag ysgolion, cyfarfuom â rhanddeiliaid eraill hefyd, gan gynnwys:

- awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol (tri chonsortiwm rhanbarthol a dau awdurdod lleol)
- colegau addysg bellach (7)
- partneriaethau addysg gychwynnol athrawon (3)
- Prifysgol Caerdydd
- e-sgol
- Gyrfa Cymru

Er mwyn ehangu ein sail dystiolaeth, gofynnom hefyd am farn penaethiaid cynradd (55 o ymatebion), arweinwyr uwchradd ac athrawon ieithoedd rhyngwladol (57 o ymatebion) a rhieni a gofalwyr (730 o ymatebion) trwy dri arolwg cenedlaethol. Cafodd yr arolygon hyn gyhoeddusrwydd trwy sianelau cyfryngau cymdeithasol Estyn a'u rhannu ag ysgolion yn uniongyrchol trwy gefnogaeth partneriaid Dyfodol Byd-eang. Mae'n bwysig nodi bod yr ymatebion i'r arolygon wedi dod o sampl hunanddewis. Nid ydynt yn cynrychioli eu poblogaethau. Mae hyn yn golygu bod tueddiadau cynhenid yn yr ymatebion i'r arolwg. Gellir dod o hyd i gopïau o'r holiaduron a ddefnyddiom ar gyfer yr adolygiad thematig hwn ar y dudalen gyhoeddiadau ar wefan Estyn.

Yn ychwanegol, cynhaliom adolygiad wrth y ddesg i gasglu dogfennau perthnasol yn gysylltiedig â ffocws yr adolygiad. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddi cyhoeddiadau ac adnoddau diweddar, gan gynnwys adroddiadau thematig Estyn a gyhoeddwyd yn y gorffennol.

Hoffai Estyn ddiolch i bawb a fu'n gysylltiedig â'r adolygiad thematig hwn.

| Sefydliad | Sector | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| Ysgol Bassaleg | Uwchradd | Cyngor Dinas Casnewydd |
| Ysgol Esgob Gore | Uwchradd | Dinas a Sir Abertawe |

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi | Uwchradd | Cyngor Caerdydd |
| Ysgol y Bont-faen | Pob oed | Cyngor Bro Morgannwg |
| Ysgol Gynradd Crucywel | Cynradd | Cyngor Sir Powys |
| Ysgol Gyfun Dŵr-Y-Felin | Uwchradd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Ysgol Gyfun Heolddu | Uwchradd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Ysgol Uwchradd Llanidloes | Uwchradd | Cyngor Sir Powys |
| Ysgol Maesteg | Uwchradd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Ysgol Gynradd Mountain Lane | Cynradd | Cyngor Sir y Fflint |
| Ysgol Gynradd Northop Hall | Cynradd | Cyngor Sir y Fflint |
| Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Pentip | Cynradd | Cyngor Sir Gâr |
| Ysgol Gynradd Penygawsi | Cynradd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Ponthir | Cynradd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Ysgol Gynradd Pont-y-gwaith | Cynradd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Ysgol Gynradd Porthcawl | Cynradd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth | Uwchradd | Cyngor Sir Gâr |
| Ysgol Gynradd Santes Gwladys | Cynradd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Ysgol Santes Ffraid | Pob oed | Sir Ddinbych (pob oed) |
| Ysgol Uwchradd Yr Eglwys Newydd | Uwchradd | Cyngor Caerdydd |
| Ysgol Aberconwy | Uwchradd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Ysgol Bodhyfryd | Cynradd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Ysgol Bro Gwaun | Uwchradd | Cyngor Sir Penfro |
| Ysgol Bro Gwydir | Cynradd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Ysgol Bro Taf | Pob oed | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Ysgol Gyfun Gŵyr | Uwchradd | Dinas a Sir Abertawe |
| Ysgol Morgan Llwyd | Uwchradd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Ysgol Pencae | Cynradd | Cyngor Caerdydd |
| Ysgol Uwchradd Tywyn | Uwchradd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Gwynedd |
| Ysgol y Dderi | Cynradd | Cyngor Sir Ceredigion |
| | | |

| |
|---|
| Consortiwm Canolbarth y De, Gwasanaeth Cyflawni Addysg, GwE |
| Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro |
| Coleg Cambria, Coleg y Cymoedd, Coleg Llandrillo (Meirion Dwyfor), Coleg Penfro, Coleg Sir Gâr, Coleg Merthyr, Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot |
| Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Abertawe |
| e-sgol |
| Gyrfa Cymru |

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **Amlieithrwydd** | Gallu cymdeithas neu unigolyn i ddefnyddio llawer o ieithoedd |
| **Arfer Adalw** | Strategaeth ddysgu sy'n cynnwys galw gwybodaeth i gof i gryfhau'r cof a dealltwriaeth |
| **Cyfuno** | Cyfuno seiniau neu sillafau unigol i ffurfio gair |
| **Cystrawen** | Set o reolau sy'n rheoli strwythur brawddegau mewn iaith |
| **Cytras** | Gair sy'n rhannu tarddiad cyffredin â gair mewn iaith arall, sy'n aml yn debyg o ran ystyr a ffurf |
| **Etymoleg** | Astudio tarddiad a hanes geiriau |
| **Ffoneg** | Dull i addysgu darllen ac ysgrifennu trwy gysylltu seiniau â llythrennau neu grwpiau o lythrennau |
| **Goslef** | Codi a gostwng traw'r llais wrth siarad, gan effeithio ar ystyr a chyfathrebu |
| **Iaith Darged** | Yr iaith y mae dysgwr yn ceisio'i chaffael neu'i defnyddio wrth gyfathrebu |
| **Llafaredd** | Y gallu i fynegi eich hun yn rhugl a deall iaith lafar |
| **Lluosieithrwydd** | Gallu unigolyn i newid rhwng llawer o ieithoedd, a'u defnyddio, mewn gwahanol gyd-destunau |
| **Segmentu** | Torri gair i lawr yn seiniau neu'n sillafau unigol i gynorthwyo â darllen ac ynganu |
| **Sgaffaldio** | Cymorth sy'n cael ei roi gan athro neu siaradwr mwy medrus i helpu disgybl i ffurfio brawddegau |
| **Trawsieithu** | Defnyddio llawer o ieithoedd yn hyblyg i gefnogi dysgu a chyfathrebu |

### Niferoedd – symiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Cyfeiriadau

Adroddiad thematig diweddar gan Estyn Pontio a Chynnydd Disgyblion (Medi 2024) Darllenwyd 13 Mawrth 2025

Arfon, E (2024) Cefnogi athrawon i fabwysiadu dulliau lluosieithog mewn addysg ieithoedd yng Nghymru: Arfon Arfon (2024) Papur Briffio Cymraeg.pdf Darllenwyd 20 Mawrth 2025

Arfon, E. (2022) Cefnogi cynnydd mewn dysgu ieithoedd: asesu yn y Cwricwlwm i Gymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 29/2022. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/adolygiad-asesu-mewn-dysgu-ieithoedd Darllenwyd 21 Mawrth 2025

Duff, J., O'Boyle, A. a Collen, I. (2023) *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2023.* British Council. Ar gael ar-lein:

Estyn (2016) *Ieithoedd Tramor Modern yng Nghymru* Caerdydd. Darllenwyd 7 Mawrth 2025

Estyn (2024) *Adroddiad Thematig: Pontio a chynnydd disgyblion* Caerdydd. Darllenwyd 7 Mawrth 2025

Llywodraeth Cymru (2021) Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: Cyflwyniad - Hwb. Darllenwyd 13 Mawrth 2025

Llywodraeth Cymru (2022) Dyfodol Byd-eang: Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru 2022 i 2025 [HTML] | LLYW.CYMRU Darllenwyd 13 Mawrth 2025

Llywodraeth Cymru (2024) Cwricwlwm i Gymru: adroddiad blynyddol 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU Darllenwyd 19 Mawrth 2025

Llywodraeth Cymru (2021) – Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu Darllenwyd 7 Mawrth 2025

Stollhans, S. (2024) GCSE results: more young people are studying languages – but the overall picture for language learning remains bleak. *The Conversation.* Ar gael ar-lein: GCSE results: more young people are studying languages – but the overall picture for language learning remains bleak (theconversation.com) Darllenwyd 20 Mawrth 2025